

Gwerthu Trysorau Caerdydd

Mae Cylch Llyfryddol Caerdydd wedi lansio ymgyrch munud olaf i atal gwerthu llawer o'r llyfrau prin sydd yn Llyfrgell y Ddinas. Bwriad Cyngor Caerdydd yw trefnu ocsiwn i gael gwared â'r llyfrau i dalu am ddodrefnu adeilad newydd y llyfrgell yng nghanol Caerdydd.

Mae'r casgliadau yn cynnwys atlasau prin, croestoriad o lyfrau a argraffwyd yn Ewrop cyn 1501 a chasgliad pwysig o Feiblau cynnar.

Yn ôl y Cylch Llyfryddol "Byddai gwerthu'r llyfrau prin hyn yn drychineb diwylliannol i Gaerdydd gyfystyr a phe bai'r Amgueddfa Genedlaethol yn mynd ati i werthu 'La Parisiene' a lluniau eraill yr Argraffiadwyr Ffrengig."

Mae Cylch Llyfryddol Caerdydd nawr yn pwysu ar y Cynghorwyr ac Aelodau'r Cynulliad i wydroi'r penderfyniad ac yn annog trigolion y ddinas i godi llais i gadw'n trysorau. Mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 14.

Clwb Ifor yn 25 oed

I fod yn fanwl gywir, gosodwyd y sylfeini ar gyfer Clwb Ifor Bach ym 1979 mewn cyfarfod yn Nhŷ'r Cymry. Ar ôl siomedigaethau'r refferendwm ar Fawrth y cyntaf a'r etholiadau lleol a chyffredinol ddau fis yn union wedyn, teimlwyd ei bod yn hen bryd inni droi ein hegini at greu rhywbeth adeiladol. Penderfynwyd sefydlu clwb Cymraeg ac yn y man a'r lle, ffurfiwyd Cymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd i'r perwyl hynny.

Cynhaliwyd nosweithiau misol yn seler Gwesty'r Great Western gyda grwpiau Cymraeg yn perfformio ac yn raddol casglwyd aelodau i'r clwb oedd heb gartref Wrth i'r aelodaeth dyfu, roeddwn yn ddigon hyderus i werthu aelodaeth oes o'r 'clwb' am gan punt. Erbyn yr haf 1983, a £15,000 mewn llaw, daethom yn ddalwyr prydles o Glwb y Lleng Brydeinig Frenhinol yn Heol Womanby. Bryd hynny roedd yr hen heol yn lle tywyll, estron,

DATHLU EISTEDDFOD DDA!



Cwmni Dawns Werin Caerdydd - un o'r llu o enillwyr

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant diamheuol Eisteddfod Caerdydd a'r Cylch!

O swyddogion yr Eisteddfod a'r Pwyllgor Gwaith, dan arweiniad urddasol Huw Llewelyn Davies, i'r llu o stiwardiaid dienw a diflino – "Diolch!"

Gan fod y rhifyn hwn o'r Dinesydd yn gyfle i ddathlu ymweliad y Brifwyl â'r Brifddinas, gwahoddwyd nifer o bobl i rannu eu hargraffiadau â'n darllenwyr. Mae eu cyfraniadau yn amrywiol a difyr.

Daeth llond côl o wobrau i'r Brifddinas a'r cylch – gweler ymgais i'w rhestru ar dudalen 2. Ond y wobwr fwyaf, efallai,

anghyfeillgar a blêr ond aethom ati yn ddyfal i ddisodli Jac yr Undeb gyda'r Ddraig Goch a rhoi enwau newydd Cymraeg ar y Queen Elizabeth Lounge a Bar Churchill.

Yr iaith Gymraeg oedd iaith swyddogol y Clwb ac roedd aelodaeth a chyflogaeth ar agor i siaradwyr Cymraeg a 'dysgwyr bona fide'. Trwy'r wythdegau, dechreuwyd amrediad o weithgareddau yn y clwb: timau rygbi, pêl-droed, criced, snwcer a dartiau; gwersi Cymraeg, Gwyddeleg a Llydaweg a grŵp o gynganeddwyr. Ar nosweithiau Gwener a Sadwrn, roedd prif grwpiau Cymru yn perfformio ac roedd y nosweithiau cwis yn boblogaidd hefyd.

Parhad ar dudalen 4

yw'r hwb a gafodd bywyd cymunedol Cymraeg y gwahanol ardaloedd wrth iddyn nhw osod y sylfaen ar gyfer croesawu'r Brifwyl. Mater o farn yw faint o effaith a gafodd yr Eisteddfod ar 'y ddinas'. A oedd 'y ddinas' wedi cofleidio'r Eisteddfod a'i Chymreictod? Neu a oedd yr achlysur hynod hwn, unigryw yn Ewrop, wedi bod yn rhyw sioe fach ymylol? Wel, mae rhyw ymadroddion Beiblaidd yn dod i'r cof am 'rannau o'r corff' a 'hau hadau'!

Mawr obeithiwn, gyda'n gilydd, mai hir y pery'r hwb a gafwyd ac y gwelir gwireddu gweledigaeth 'Y tynnwr lluniau', Hywel Meilir Griffiths, yn y gerdd a gipiodd iddo Goron yr Eisteddfod:

... a fflamau Cymreictod yn bygwth
llyfu waliau'r castell ...

Cyfarfod Blynyddol

Y Dinesydd

Nos Fawrth 9 Medi
am 7 o'r gloch

yng Nghapel Bethel,
Maesyderi, Rhiwbeina.

Croeso i chi ddatgan eich barn
am eich papur bro

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:
Bryan James

Golygydd y rhifyn nesaf:
Peter Gillard

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn
Hydref 2008
erbyn 24 Medi at:**

Y Dinesydd:

Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd., Sain
Siorys, Bro Morgannwg CF5 6EP
(e-bost: pagillard@yahoo.co.uk
ffôn: 01446-760007).

MANYLION CYSYLLTU Calendr y Dinesydd

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys
Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(JamesEW@caerdydd.ac.uk;
029-2062-8754)

Hysbysebion

Glyn Jones, Menter Caerdydd, Tŷ Avocet,
88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf,
Caerdydd CF14 2FG
(hysbysebu@dinesydd.com; 029-2056-5658)

Derbyn a dosbarthu copïau

Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais,
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7HU
(ceri33@btopenworld.com; 07774-816-209)

Rhoddion a thaliadau

Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd,
Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf,
Caerdydd CF14 2FG

Noddi rhifynnau ac ymholiadau cyffredinol

Peter Gillard 01446-760007.
Cyhoeddir Y Dinesydd gan
Bwyllgor Y Dinesydd.
Fe'i cysodir gan Penri Williams
a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad Y Dinesydd yn dibynnu ar
roddion gan unigolion a
chymdeithasau. Rydym yn croesawu
pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch at:
Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter
Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr
Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd. CF14
2FG.

Enillwyr dalgyloch y Dinesydd yn Eisteddfod Caerdydd a'r Cylch 2008

Llongyfarchiadau gwresog i bawb!
(Os oes rhywun arall rhowch wybod i ni.)

Cyfansoddiadau

Llenyddiaeth:
Y Fedal Ryddiaeth
Mererid Hopwood (gynt o Landaf, a ryn ni'n
dal i hawlio tipyn bach ohoni!)
Stori fer
Jon Gower, Treganna
Drama fer
Emyr Edwards, Llandaf
Cyfansoddi monolog
Luned Emyr, Y Mynydd Bychan

Cerddoriaeth:

Trefniant o alaw werin ar gyfer côr meibion
Jack White, Caerdydd
Tri symudiad gwrthgyferbyniol
Gareth Churchill, Pontcanna
Tlws y Cerddor (cyfansoddiad gwreiddiol)
Eilir Owen Griffiths, y Bae

Celfyddydau Gwledol

Celfyddyd Gain
Canmoliaeth Uchel a £2,000 - David
Cushway, Trelái, Caerdydd

Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio (ynghyd a
£3,000) - Suzie Horan, Danescourt, Caerdydd
Canmoliaeth Uchel a £2,000 - Bethan Ash,
Cyncoed, Caerdydd

Ysgoloriaeth Bensaerniaeth (£1,500) - Philip
Henshaw, Pwllheli (sy'n Gynorthwy-ydd
Dysgu yn Ysgol Bensaerniaeth Cymru,
Caerdydd)

Ar y llwyfan

Cyflwyniad ar lafar ac ar gân: 2il Ysgol
Gynradd Treganna
Llefaru Unigol 12 – 16 oed: 2il: Jams Powys
Deialog: 2il Y Dinesyddion. 3ydd Dyfed a
Ffion
Parti Cydadrodd: 3ydd Parti Eglwys Minny
Street

Unawd Merched 12 – 16 oed: 3ydd Lisa
Medi, Y Bontfaen
Deuawd Cerdd Dant dan 21 oed: 3ydd Elen a
Lisa, Y Bontfaen
Unawd Cân Werin 16 – 21 oed: 1af Ellen
Williams, Y Bontfaen
Unawd Contralto dros 25 oed: 1af Rhian
Williams
Unawd Bariton dros 25 oed: 1af Andrew
Mathews, Penmark
Rhuban Glas Unawd dros 25 oed: 2il Rhian
Williams, Tyllgoed

Unawd Llinynnol dros 19 oed: 1af Marged
Jones
Unawd Piano dros 19 oed: 3ydd Rhiannon
Pritchard
Deuawd Offerynnol Agored; 3ydd Beth
Lloyd a Dewi Preece

Argraffiadau o'r Eisteddfod

Steddfod a ddechreuodd ac a ddiweddodd
yn y glaw. Ond rhwng y nos Wener gynta'
a'r nos Sadwrn ola roedd 'na belydrau
disglair o heulwen.

Fe gofia yn hir am yr oedfa a'i serenedd
oedd yn adlewyrchu personoliaeth yr
Archesgob a diffuantrwydd disgyblion
Plasmawr. Un arall o'r uchafbwyntiau oedd
y Gymanfa, a rheolaeth Alun Guy ar yr
achlysur ac ar y gynulleidfa.

Bu'r cyngherddau yn llwyddiant ysgubol
o ran denu niferoedd; cyngherddau oedd yn
addas i'r brifddinas. Y foment fawr oedd ar
ddiwedd cyngerdd Graf pan gafodd
rhywun, neu rywrai, y doethineb i daro
nodyn yr anthem ac er bod rhai ar eu ffordd
allan roeddem ni 'yno o hyd'.

Tros y deng mlynedd ar hugain er pan
fu'r Brifwyl yma o'r blaen mae 'na newid
syfrdanol wedi bod ar y ddarpariaeth ar y
maes. Diau nad da lle gellir gwel ond mae
yna fwrllwm a llawnder ar y maes bellach a
hynny i bobl o bob oed.

Mater o chwaeth yw barn beirniaid. 'Cam
o feirniaid'! Cafwyd cadeirio ... a chroni;
yn wir cafwyd teilyngdod ymhob seremoni.
Llongyfarchiadau i'r enillwyr. A chafwyd
'llawen gwrrd â hen gyfeillion'.

Y peth mwya difrifol oedd yr adrodd
digri, a'r peth digrifaf oedd y cyfaill a
gyrhaeddodd awr yn rhy gynnar i ddarlith a
chael ei hun mewn pow-wow yn
Stonewallio yn hytrach nag ehangu ei
wybodaeth am y Lloyd George hoyw!

Fy arwyr – y stiwardiaid a safodd eu tir
trwy bob tywydd. Be' wnawn ni'r gaea
'ma?!

R Alun Evans

Unawd Telyn: 1af Ffion Mai Rhisiart
Unawd Chwythbrennau 16 – 19 oed: 1af
Mair Roberts
Unawd Chwythbrennau dros 19 oed: 3ydd
Joe O'Connell
Grŵp Offerynnol: 3ydd Telynau'r Plas
Rhuban Glas Offerynnol 16 – 19 oed: Stella
Cho

Tlws Cymdeithas Dawns Werin Cymru:
2il Cwmni Dawns Werin Caerdydd
3ydd Dawnsyr y Fro, Ysgol y Fro
Gwobr Lois Blake: 1af Cwmni Dawns Werin
Caerdydd, 2il Dawnsyr Nantgarw
Cerddorion Gorau y Dawnsyr: Cwmni
Dawns Werin Caerdydd

Bandiau Pres Dosbarth 3: 3ydd Band Dinas
Caerdydd (Melin Gruffudd)
Bandiau Pres Pencampwriaeth / Dosbarth 1:
2il Band Awyrlu Sain Tathan

Partion a chorau:
Parti Cerdd Dant dan 25 oed: 1af Aelwyd
Waun Ddyfal, 2il Parti Glantaf
Parti Alaw Werin dan 21 oed: 2il Parti Heol y
March

Cydnabyddir cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Steddfod Hen Stêjars

“Steddfod ddinesig go iawn”, “Steddfod mwyaf gwyrdd”, “Steddfod arloesol”... ond ynddiamau “Steddfod hen stêjars” oedd Steddfod Caerdydd.



Charles Byrd gydag un o'i beiriannau anhygoel

Tra roedd ambell i eisteddfodwr yn troedio'n ofalus ar draws

y maes gan gadw llygad ar y pullau dŵr, roedd llygad ambell i un arall yn sbecian dros eu hysgwyddau'n hiraethus at Steddfod 1978. Roedd cymaint o gyfeiriadau at Steddfod '78 yn ystod yr wythnos yn gwneud i rywun feddwl bod yr oes aur wedi hen ddiflanu lawr y Taf tua'r môr.

Does dim angen cyfeirio at arweiniad medrus Alun Guy yn y ddwy gymanfa ganu nac at atgyfodiad y grŵp Tebot Piws i bwysleisio'r ffaith mai Steddfod hen stêjars oedd hon. Ac, wrth gwrs, roedd yn rhaid i Gaerdydd gael DAU gôr pensiynwyr!

Er i ni golli nifer o weithwyr da ers Steddfod '78 roedd yna ddigon ar ôl yn britho'r maes mewn mwy nag un ffordd, rhai yn dipyn tewach rownd eu canol ac yn dipyn gwynach ar y copa ond roedden nhw yno, yn gefn i'r gweithgaredd, yn dal i wneud cyfraniad gwerthfawr a dal i ddwyn i gof y dyddiau da. Pwy sy'n cofio menter y meysydd parcio? Pwy sy'n cofio parcio ceir yn lliwiau'r Urdd? Pwy sy'n cofio sgriwio'r seddau yn y pafiliwn i arbed ceiniogau prin

Parti Alaw Werin hyd at 20 mewn nifer: 2il

Parti CF1

Parti Cerdd Dant: 1af CF1

Côr Cymysg dros 45 o leisiau: 1af Côr Caerdydd

Côr hyd at 35 o leisiau: 2il Côr CF1. 3ydd Bechyn Bro Taf

Côr Pensiynwyr: 2il Côr y Mochyn Du. 3ydd

Côr Aelwyd Hamdden

Côr Merched dros 20 o leisiau: 1 Côr

Merched Canna

Côr Cerdd Dant dros 20 mewn nifer: 1af Côr

Merched Canna, 2il Côr CF1

Côr Cymysg rhwng 20 a 45 mewn nifer: 1af

Côrddydd, 2il Côr CF1

Côr Meibion 20 – 45 o leisiau: 1af Côr

Meibion Taf

Côr yr Ŵyl: Côrddydd – arweinydd, Sioned James

Eisteddfod Amlethnig

Wel, rhaid dweud imi gael gwefr a mwynhad rhyfeddol o Steddfod Caerdydd. Un peth fydd yn canu'n hir yn fy nghof am Ŵyl y Brifddinas oedd nifer yr ymwelwyr o amrywiol liw a hil. Treuliais beth amser yng nghwmni ffrind o Japan oedd erioed wedi bod mewn eisteddfod o'r blaen, ac a gafodd gymaint o hwyl nes iddi ddod eto'r diwrnod wedyn. Roedd wrth ei bodd yn gwrando ar y corau, yn gwyllo'r orsedd ac yn crwydro'r maes. Wrth fy ochr yn gwyllo'r cadeirio, dan ryfeddu at y gwisgoedd a'r gerddoriaeth, roedd merch ifanc a hanai o'r India, ond oedd bellach wedi ymgartrefu yn Nhreganna. Un o'i chyd-weithwyr oedd wedi sôn wrthi am yr Eisteddfod, ac roedd hi'n hynod falch iddi alw heibio.

Tanlinellu'r ysbryd cosmopolitan hefyd a wnâi rhai o ddigwyddiadau'r Ŵyl. Difyr iawn oedd gwrando ar Dr Simon Brooks yn traethu ar le'r Gymraeg fel un o ieithoedd estron 'Tiger Bay' yn ail hanner y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg, a deall fod nifer o gapeli Cymraeg wedi'u codi yn ardal y dociau. Mae'r rheiny bellach wedi hen ddiflanu, ond mae'r Gymraeg i'w chlywed eto ym Mae Caerdydd wrth i Gymry Cymraeg

ac, wrth gwrs, pwy all anghofio'r gamp orchestol o gynhyrchu papur dyddiol – heb gymorth cyfrifiaduron, heb gamerâu digidol, heb wefan – nyts!

Ond dau hen stêjar tra gwahanol a wnaeth argraff yn y Steddfod eleni. Peidied neb â chredu fod Goronwy Jones, Y Dyn Dŵad, wedi parchuso dim ond roedd o'n dipyn o seléb ar y maes. Roedd ei ddarlleniadau beunyddiol yn y Babell Lên yn dal yr un mor amharchus, a'r un mor boblogaidd, ac yn dal i ddenu tyrfaeodd.

Ond yn ddiau yr hen stêjar a wnaeth yr argraff fwyaf ar y Steddfod oedd Charles Byrd. Roedd gwaith yr artist 91 oed yn cyfareddu'r ifanc a'r hen fel ei gilydd gyda'i amrywiaeth o weithiau a wnaed dros gyfnod o drigain mlynedd. Roedd yr arddangosfa yn gyfle unigryw i weld corff o waith gyda'i gilydd am y tro cynta – y peiriannau, y peintiadau haniaethol ac, hefyd, ei bortreadau hanesyddol o Gaerdydd y 50au a'r 60au. Roedd y miloedd a fynychodd Y Lle Celf wedi eu cyfareddu gan waith yr hen ŵr.

Ydy bywyd wedi mynd yn rhy gyffyrddus o hawdd, neu ydw i jyst yn hen stêjar arall yn 'i hefru hi am y dyddiau da bondigrybwyll? Fel y dywedodd rhywun rhywdro, “Tydi nostalgia ddim be oedd o!”

Cen Williams

Prifddinas y Cymry

Sylw gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn y Babell Lên sy'n crynhoi f'ymateb innau i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch eleni. Cyfeirio a wnaeth at 'Adeilion', pryddest arobryn T. Glynne Davies yn Eisteddfod Llanrwst 1951. Yn y gerdd honno, wrth fyfyrto ar ddadfeiliad bywyd cefn gwlad, nid yn unig y mae'r tyddyn yn furddun, ond mae'r plant a fagwyd ynddo hefyd 'yn furddunod ... ar strydoedd dinasoedd du'. Mae'n amlwg na wela'r bardd unrhyw obaith i'r diwylliant Cymraeg ymgartrefu a ffynnu mewn dinas ddaearol, a'r unig gyfeiriad cadarnhaol at ddinas yw'r olwg ar 'byrth grisial' y Ddinas nefol sy'n cloi'r gerdd.

Ond, meddai Dafydd Elis-Thomas, yr oedd ef wedi byw yn ddigon hir i weld y Gymraeg bellach yn ymwreiddio mewn dinas ddaearol. A dyna'n union f'ymdeimlad innau: y teimlad fod

Parhad ar dudalen 4

symud yno i fyw. Clywais gan fy mam am ddarlith feistrolgar Dr Dylan Foster Evans ar amlethnigrywydd drwy'r Gymraeg, a thystiolaeth yng nghyfreithiau Hywel Dda am ffyrdd o ymdrin yn deg â mewnfudwyr yr oesoedd canol (ymhlith talentau niferus Ann Saer y mae'r gallu rhyfeddol i ailadrodd cynnwys unrhyw ddarlith iddi ei chlywed air am air). Gresyn imi fethu sesiwn Dr Dylan ar amlddiwylliannedd Caerdydd ar y bore Sadwrn olaf, ond clywais fod y siaradwyr o wahanol dras a chefnidir wedi dangos yn eglur iawn amrywiaeth ethnig y bobl sydd bellach yn medru'r Gymraeg yn ein prifddinas. Hwre yn wir.

Wrth ymadael â'r Eisteddfod bob blwyddyn, bydda i'n arfer teimlo rhyw wacter a thristwch. Ond eleni? Er imi fwynhau pob munud (bron!) o'r Ŵyl, y cwbl a deimlwn ar y dydd Sul oedd ewfforia llwyr nad oedd angen imi ddysgu rhagor o ganeuon ar fy nghof, a 'mod wedi llwyddo i ddod drwy'r wythnos heb golli fy llais – a rhyddhad mawr o gael ail-gydio mewn bywyd normal! Yr ail beth fydda i'n ei gofio yw Alun Guy yn arwain côr, cerddorfa a chymanfa gydag urddas cŵl a hawddgarwch, a'r trydydd peth fydd bwrlwm Maes D a'r pleser mawr o weld cymaint o ddysgwyr wrthi'n rhoi'r iaith ar waith a gwên ar eu hwynebau. Gwych o 'Steddfod.

Owen Saer

Noson Tri10

Oeddech chi ymhlith cynulleidfâ'r Pafiliwn ar nos Wener gyntaf yr Eisteddfod? Ond efallai eich bod yr un fath â ffrindiau a ddaeth cyn belled â'r Maes ond, wedi drysu'n lân wedi chwilio am le i barcio, a benderfynodd fynd adre a gwyllo'r sioe ar y teledu. Cafodd y ddwy gynulleidfa ei gwefreiddio'n llwyr er i un teulu y bûm i'n siarad â nhw gael eu siomi hefyd am fod eitem eu mab wedi'i thorri i wneud lle i'r hysbysebion, a'r rhai oedd adre o flaen y teledu wedi cael colled.

Gellid dweud ein bod, yn iaith yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi cael gwledd. Ond mae gwledd yn air rhy hen ffasiwn i ddisgrifio'r noson gofiadwy hon. Roedd hi'n debycach i sioe clwb nos gyda'i goleuadau lliwgar, sŵn byddarol ambell grŵp a'r cyfuniad anhygoel o ddoniau disglair, allblyg.

Noson i ddathlu penblwydd Glantaf yn ddeg ar hugain a Plasmawr yn ddeg oed oedd hon a phob un a gymerai ran wrth eu bodd yn perfformio o flaen cynulleidfa enfawr.

Lluniwyd y noson yn gelfydd ar ffurf rhaglen newyddion gyda darllenwyr proffesiynol wrth eu gwaith beunyddiol fel petai: Eleri Morgan yn rhoi hanes agor ysgol Glantaf, Rhodri Llywelyn yn sôn am gampau'r ysgolion ar y maes chwarae, Branwen Gwyn yn cyflwyno'r sioeau cerdd ac yn uno i ganu'r caneuon gyda chriw llawen oedd yn cynnwys Rhidian Marc, Dafydd James a Gruffydd Glyn, a Sarah Gibson yn ychwanegu'r pinsiad o halen sy'n rhoi blas ar bob aduniad, yr Wyt ti'n cofio ...? trwy ddangos lluniau disgyblion ac athrawon mewn sefyllfaoedd annisgwyl.

Seiniau gorffwyll Hanner Pei, a Daniel a Matthew Glyn wedi'u cyflwyno gan Huw Stephens agorodd y noson. Yna newidiwyd yr awyrgylch yn llwyr gan dri a wnaeth enwau iddynt eu hunain yn myd opera, un yn gawr o gorff, y ddau arall gryn dipyn yn llai o faint ond Anthony Stuart Lloyd, Jeremy Huw Williams a Paul Carey Jones yn amlwg yn mwynhau'r sefyllfa, a'r dorf wrth ei bodd. Yn yr un hwyl urddasol, cawsom unawdau gan yr offerynwyr Alice Reed a Marged Jones, a'r baswr Stephen Jones. Gwahanol eto oedd gitâr a llais tyner Gareth Bonello.

Cafwyd eitemau gan gôr meibion arbennig oedd yn cynnwys Malcolm Thomas, prifathro cyntaf Glantaf a Huw Thomas, ail brifathro'r ysgol. Doedd hynny ddim yn syndod gan fod y ddau yn gantorion da ond roedd eu gweld yn siglo eu cyrff yn arddull y dauddegau yn brofiad newydd i bawb.

Dwy ferch aeth a'm bryd i, a'r ddwy wedi dilyn llwybrau annraddodiadol sef Lowri Walton, y ddawnswraig a enillodd Ysgoloriaeth Bryn Terfel yn Eisteddfod yr Urdd yn 2005 a'r comediwr Beth Angell a'i

A sôn am gorau –

Rhaid canmol y canu cynulleidfaol yn y Gymanfa a hefyd berfformiad Côr yr Eisteddfod.

Os oedd y Gymanfa nos Sul, dan arweiniad egnïol Alun Guy, yn agoriad traddodiadol gynnes, roedd y cyngerdd gan Gôr yr Eisteddfod ar y nos Sadwrn olaf yn glo cyffrous i'r Brifwyl. Yn y rhan gyntaf, dan arweiniad deheug Alun Guy, cafwyd perfformiad hyfryd o weithiau cyfarwydd, gan y Côr a Cherddorfa Siambr Cymru, a pherfformiad cofiadwy gan yr unawdydd Rebecca Evans.

Yna, yn yr ail hanner, cerddodd gwefr drwy'r gynulleidfa wrth i Karl Jenkins arwain perfformiad o'i waith ei hun, *Dewi Sant*. Roedd yn gyffrous tu hwnt – ond rwy'n dal i drïo gweld y ddolen rhwng rhyddmau deinamig y drymiau a Dewi Sant!

Fel y dywedodd Rob Nicholls, Golygydd Cynnwys Diwylliant S4C, "Roedd yn ffrainc arbennig i'r Eisteddfod eleni fod un o gyfansoddwyr mwyaf llwyddiannus ein cyfnod yn bresennol i arwain ei waith ei hun". Safodd y gynulleidfa ar ei thraed ar ddiwedd y perfformiad, yn arwydd ei bod yn cytuno!

hanes am y Dinner Ledi. Llwyddodd hi yn eithriadol i ddal ysbryd ac acen blynyddoedd cynnar yr ysgol. Roeddwn i yn fy nau ddwbwl yn chwethin.

Ni fyddai'r un parti penblwydd yn gyflawn heb deisen a gwithwyd y deisen fwyaf erioed i'r llwyfan. Noson o lawen-chwedl am Addysg Gymraeg oedd hon. Dechreuodd gydag un yn unig ar y llwyfan, gorffennodd gyda chôr o dri chant a hanner o ddisgyblion, rhieni ac athrawon yn cerdded dan ganu trwy'r pafiliwn i gyrraedd y llwyfan. Roedd plant yr ysgolion cynradd wrth eu bodd yn codi baneri eu hysgolion, a phawb yn edrych ymlaen yn ffyddiog at ddyfodol yr un mor llwyddiannus.

Meri Wiliam

Clwb Ifor Bach yn 25 (o dudalen 1)

Bach iawn oedd yr elw blynyddol bryd hynny ac erbyn y nawdegau, er mwyn cadw'r Clwb ar agor, newidiwyd ei natur i fod yn glwb nos lle mae'r miwsig a'r iaith lafar yn bennaf Saesneg gyda rhai o'r staff hyd yn oed yn methu cwrdd â phrif reol y Clwb - y gallu i siarad Cymraeg neu fod yn 'ddysgwyr bona fide'.

Ar yr ochr ddisglair, mae rhyddfrait yr adeilad wedi ei brynu gan y Clwb. Mae hyn yn creu'r posibilidod o werthu'r adeilad a phrynu un mewn safle mwy addas i gwrdd ag anghenion ehangach Cymry Caerdydd a'r cylch. Nid sefydlu Clwb Nos ar gyfer myfyrwyr di-Gymraeg rhwng 18 a 22 oed oedd gweledigaeth y sylfaenwyr. Mae'n hen bryd ailystyried swyddogaeth Clwb Ifor Bach i sicrhau ei fod e'n ailddarganfod ei rôl fel sefydliad sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws amrediad eang o weithgareddau ac ymhlith sbectrwm llydan o aelodau.

Byddai'n ddi-ddorol ac o gymorth i gael barn darllenwyr y Dinesydd ar ddyfodol Clwb Ifor Bach.

Owen John Thomas

YSGOL FRIARS BANGOR

Mae nifer o gynddisgyblion Ysgol Friars, Bangor, bellach yn byw yn nalgyllch y Dinesydd. Ry'n ni wedi bod yn cwrdd yn achlysurol i hel atgofion a rhoi'r byd yn ei le. Beth am ymuno â ni ar y 5ed o Dachwedd yng Ngwesty'r Village, Yr Eglwys Newydd? Bydd ein Llywydd, Tom Davies, gynt o Landaf, yn falch o'ch cyfarch. Byddwn yn cwrdd am 6.30 ar gyfer bwytia am 7.00.

Os oes diddordeb, rhowch alwad i Gareth Wallis Evans (029 20 566265) neu John Walter Jones (029 20 626190). Byddai'n hyfryd cael eich cwmni.

Prifddinas y Cymry (o dudalen 3)

Eisteddfod Caerdydd yn adladd naturiol o Gymreictod y cymunedau o'i chwmpas, yn hytrach nag yn 'estrones' wedi'i thrawsblannu ar Gaeau Pontcanna. Neu yng ngeiriau'r gerdd olaf yn y gyfres a enillodd Goron Caerdydd i Hywel Griffiths: 'Heno mae'r brifddinas yn mudlogsi, a fflamau Cymreictod yn bygwth llyfu waliau'r castell ...'

Yn bersonol, uchafbwynt yr wythnos,

wrth reswm, oedd y fraint o gael f'urddo yn yr Orsedd fore Gwener, a hynny – diolch i'r tywydd! – wrth feini'r Orsedd, 'yn wyneb haul, llygad goleuni', ac yn fy ninas fy hun. Ac ymhlith y munudau mwyaf cofiadwy yn y seremoni? Cael fy hun yn sefyll rhwng Caryl Parry Jones a Rebecca Evans yn canu 'Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion, dy gyfiawnder fyddo'i grym ...' Tynnaf gysur o'r hen ddihareb: 'Melysaf y cân eos, ond nid erchis Duw i'r frân dewi'!

E. Wyn James

Codi ymwybyddiaeth o faterion byd-eang

Yn mis Medi mi fydd Aneirin Wenner, 18, o Gaerdydd yn cynrhychioli Cymru fel rhan o'r Global Xchange (GX), sef rhaglen 6 mis ar gyfer pobl ifanc sy'n gwneud gwaith gwirfoddol mewn partneriaeth â'r Cyngor Prydeinig a'r Gwasanaeth Gwirfoddol Byd-eang, (y VSO – Voluntary Services Overseas). Gydag e, yn rhannu'r fenter, bydd Rebecca John, 23, o Sir Benfro.

Ynghyd â'u partneriaid o Bangladesh, mi fydd Aneirin a Rebecca yn byw ac yn gweithio yn Caithness, yr Alban, am 3 mis cyn teithio i Chittagong, Bangladesh, i fyw gyda theulu lleol ac i wneud gwaith gwirfoddol yno. Wrth annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwaith cymunedol yn y D.U. ac yn Bangladesh, mae GX yn gobeithio datblygu dealltwriaeth a pharch tuag at ddiwyllianau gwahanol a hefyd codi ymwybyddiaeth o faterion lleol a byd-eang.

Er bod cost y daith gyfnewid wedi ei dalu, mae GX yn gofyn i'r bobl ifanc godi £600 yr un tuag at yr elusen VSO. Ym mis Awst mi fydd Rebecca'n ymgeisio nenblymio (skydiving)!! er mwyn codi peth o'r arian sydd ei angen. Ar y llaw arall, mae Aneirin, sydd newydd orffen ei gysiau lefel A yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am feicio yr holl ffordd o John O'Groats yn yr Alban, i Lands End yng Nghernyw. Erbyn i chi ddarllen y darn hwn yn y Dinesydd bydd e wedi gorffen y daith.

I gefnogi Rebecca ac Aneirin ewch i: www.justgiving.com/becksie a www.justgiving.com/awenner neu cysylltwch drwy ebostio: R.John.04@cantab.net a aajwenner@hotmail.com

Mae'r holl arian a godir yn mynd yn i'r VSO. Am fwy o wybodaeth am GX ewch i www.globalxchange.org.uk



O dan y twyni tywod

Sadwrn gwlyb a gwyntog o Orffennaf oedd hi pan gychwynnodd dwsin o gyfeillion Carnhuanawc, a Keith Bush yn ein harwain, ar antur dros dwyni tywod Cynffig i weld yr hyn oedd weddill o'r hen "ddinas dlos".

Penderfynwyd ymlaen llaw i gwrdd yn nhafarn Y Prince of Wales ym Mawdlam am bryd o fwyd i'n cynnal ar ein taith. (Gyda llaw, talfyriad o Mair Magdalen yw Mawdlam, ac mae'r eglwys fach i'w gweld ar y bryn ger y dafarn.) Mae'r Prince of Wales yn hen dafarn. Codwyd hi yn 1605 a, diolch i'r drefn, mae wedi cadw ei chymeriad hynafol. Tŷ Newydd oedd yr hen enw ar y dafarn - tybed ai hon oedd y dafarn newydd godwyd yn lle'r un aeth dan y tywod?

Un o nodweddion hynod ddiddorol y dafarn yw'r ystafell fawr yn y to. Gellir mynd iddi o'r tu mewn neu i fyny grisiau o'r tu allan. Bu'r neuadd hon yn fan cyfarfod bwrdeistrefwyr yr ardal ers ei chodi ac yma hyd heddiw y cynhelir cyfarfodydd ymddiriedolwyr bwrdeistref Cynffig. Bu hefyd yn ysgol i'r Methodistiaid Calfinaidd am flynyddoedd lawer. Ar y muriau o'i chwmpas mae arfbeisiau 12 marchog Morgannwg roddodd eu henwau i dafarn y Twelve Knights sydd heb fod ymhell.

Gwyddom i gaer Rufeinig gael ei chodi ar aber afon Cynffig yn rhan o'r goresgyniad ar Orllewin Cymru cyn i'r



Normaniaid ddilyn ôl eu troed ganrifoedd yn ddiweddarach a chodi castell a thref gaerog yma. Câl'r Cymry fynychu'r dref ar ddiwrnod ffair a marchnad!

Llosgwyd y dref gan y Cymry yn 1167 ac yn ddiweddarach gan Owain Glyndŵr. Ond o dipyn i beth y tywod a orchfygodd yr hen dref ac yn y bymthegfed ganrif cafwyd storom anferthol a chladdwyd yr hen dref yn gyfan gwbl. Heddiw, yr oll sy'n weddill yw adfeilion y castell ac oddi yno cawsom, er waetha'r tywydd, olygfâ braf o fae Abertawe a Gwaith Dur Margam yn y pellter.

Dyma'r ardal hefyd ble roedd bri ar chwarae bando. Rhyw fath o hoci oedd hwn, heb fawr o gardiau coch na melyn yn perthyn iddi. Tua 10 fyddai ym mhob tîm a nod y gêm oedd cael y bêl i ddrws eglwys eu gwrthwynebwyd. Roedd bois bando Margam, yn ôl y sôn, yn rhai i'w hofni. Gadawsom adfeilion y "ddinas dlos" ac ymlwybro'n ôl i dafarn Tŷ Newydd am baned twym cyn ei thro'i hi am adref, ond nid heb ryfeddu unwaith eto at gyfoeth yr hanes difyr sydd ar ein stepen drws. Diolch eto i Keith.

Dathlu Cyfeillgarwch Hanner Canrif

Almaeneg oedd un o bynciau Ethni Daniel yn Ysgol Uwchradd y Merched Cathays, a'r athrawes oedd Mrs Webley. Ym 1958, cyrhaeddodd Sisi Schultze Kahleys o fferm yng nghyffiniau Frankfurt, gartref Ethni ym Mharc Victoria a pharhaodd y cyswllt rhyngddyn nhw a'u teuluoedd am hanner canrif. Dyma nhw yn dathlu'r achlysur fis Gorffennaf eleni. Fe ddaeth Sisi â'i dyddiadur o'r cyfnod gyda hi a buont yn ymweld eto â Bro Morgannwg a Nash Point. Rheidrwydd i Sisi oedd cael hufen iâ Knickerbocker Glory a flasodd gyntaf gymaint o flynyddoedd yn ôl yng nghaffi'r Louis yn y dref.

Carnhuanawc yn yr Eisteddfod

Hanner dydd, ar ddydd Mercher roedd Pabell y Cymdeithasau yn orlawn - dros gant o gynulleidfa wedi ymgasglu i wrando ar Lywydd Anrhydeddus Cymdeithas Carnhuanawc - Dr John Davies yn cyflwyno darlith ar y testun 'Caerdydd - Dinas a Phrifddinas' yn olrhain hanes tyfiant Caerdydd trwy'r canrifoedd ac yn trafod yr elfennau a oedd wedi helpu Caerdydd i dyfu o bentref di-nod i fod yn brifddinas.



John Davies

O'r Cae Chwarae i'r Cynfas



Yn ddiweddar fe ddaeth Gethin Jones, Bryn Terfel, Matthew Rhys, Cerys Matthews a llond gwlad o wynebaw adnabyddus ynghyd rhwng dau glawr cyfrol newydd y cyn-chwaraewr, sylwebydd rygbi ac artist Brian Davies, *Portreadau Brian Davies Portraits*, a gyhoeddir gan wasg Carreg Gwalch. Cyhoeddwyd y llyfr o flaen torf o bron i ddau gant mewn noson arbennig nos Fercher, 2 Gorffennaf yn Canada Lodge, Creigiau ger Caerdydd.

Mae'r gyfrol ddwyieithog hon yn cynnwys hanner cant o wynebaw cyfarwydd, a rhai anghyfarwydd, o sawl maes gwahanol – cantorion a cherddorion, actorion a diddanwyr, darlledwyr a gwleidyddion, artistiaid a gwŷr y campau. "Un peth sydd yn gyffredin iddyn nhw i gyd, yw 'mod i'n edmygu eu doniau a'u campau ac yn falch iawn o gael y cyfle i greu portread," meddai Brian Davies.

Yn ŵr y campau yn ystod ei yrfa gan gynrychioli Ysgolion Cymru mewn rygbi, criced ac athletau cyn chwarae rygbi dros Lanelli a Chymru, nid oes syndod mai gweld llun o Jonny Wilkinson gyda'i draed yn yr awyr wrth geisio taclo Shane Williams yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd yn 2003 a ysbrydolodd Brian Davies i ddatblygu ei ddiddordeb mewn arlunio ymhellach.

Mae Brian wedi cael ysbrydoliaeth, hefyd, o weld pobl ifanc yn brwydro yn erbyn effeithiau Systig Ffeibrosis. "Maen nhw wedi bod yn ysbrydoliaeth i fi i fyw bywyd i'r eithaf," meddai. "Rwy'n ddiolchgar iddynt." Mae elw'r gwerthiant yn mynd tuag at yr elusen honno.

I gydfynd â phob llun ceir portread geiriol gan Brian wrth iddo roi ychydig o hanes, argraffiadau ac atgofion o bob cymeriad yn ei eiriau ei hun.

"Gan 'mod i wedi cyfarfod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n ymddangos yn y llyfr

Cynhaeaf Hanner Canrif



Ddydd Iau yr Eisteddfod lansiwyd cyfrol newydd gan y cyfreithiwr a'r gwleidydd gwlatgarol o Donteg, yr Arglwydd Gwilym Prys Davies, ym Mhabell y Cynulliad.

Fe ŵyr y rhai sy'n adnabod yr awdur mai'r ddwy thema ganolog yn ei yrfa yw brwydr yr iaith a'r frwydr i ennill mesur o hunanlywodraeth i Gymru. A dyna yw ffocws y gyfrol hon – lle cawn ddadansoddiad meistrolgar ar y digwyddiadau a'r personoliaethau a fu'n rhan o'r datblygiadau allweddol yn ystod yr hanner canrif diwethaf.

Talwyd teyrngedau i'r awdur gan Lywydd y Cynulliad, yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas, a'r cyn Ysgrifennydd Gwladol, yr Arglwydd John Morris, am ei gyfraniad allweddol, er diymhongar, yntau i'r frwydr. Yn ei gyflwyniad disgrifiodd yr Athro J. Beverley Smith yr awdur fel 'un a fu, mewn cyfnod o argyfwng yn niwylliant a gwleidyddiaeth y genedl, yn geidwad cadarn ein hiaith a gwarchodwr rhin ein gweriniaeth'.

Ond, er cymaint a enillwyd, mynn Gwilym Prys Davies bod her aruthrol yn dal i'n hwynebu o ran sicrhau dyfodol ein hiaith a'n cenedligrwydd. Da, serch hynny, yw gallu nodi ei fod yn diweddu ei gyfrol â sylw hyderus – 'Nid yw hyn yn amhosibl'.

cyn i mi eu paentio, ro'n i eisiau cynnwys rhai o'm hatgofion personol i i gydfynd â'r lluniau," ychwanegodd Brian. Mae hynny'n ychwanegu elfen ddiddorol arall.

Ffrind agos i Brian, ac un sy'n ymddangos yn y llyfr yw'r cyflwynydd a'r sylwebydd rygbi, Huw Llywelyn Davies, "Gellir dweud bod hon yn gyfrol sy'n dathlu talent y Gymru gyfoes ar ganfas eang iawn, cyfrol i harddu unrhyw silff lyfrau."

Ysgol Feithrin Radur

Dyma dymor prysur arall i orffen y flwyddyn. Mae'r plant wedi bod yn astudio'r pwnc glan y môr a jiodd pawb y trip i Ynys y Bari ar ddiwrnod braf o haf i ymweld â'r traeth, y creigiau, cregin a'r crancod!



Ar Orffennaf y 10fed roedd hwyl a sbri wedi ei drefnu gyda Martyn Geraint yn diddanu'r plant a'r rhieni yn Ysgol Glantaf.. Cawsom amser hefyd i ddiolch i Anti Alison, sydd newydd ymdeol fel arweinydd y meithrin, am ei holl waith dros 14eg o flynyddoedd! Ymdeoliad hapus iawn Anti Alison.

Cafodd plant yr ysgol Feithrin hefyd yr anrhydedd o gael eu gwahodd i gymryd rhan ym Mhasiant y Plant ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Cymru ar fore Awst 3ydd. Roedd yn brofiad bendigedig iddynt – ac yn werth pob munud o'r holl ymarfer byrlymus!

Dymuna pawb ddweud pob lwc i'r plantos sydd yn ymadael â'r Meithrin i fynd i ysgolion Gwaelod y Garth, Pencae a Tan-Yr-Eos.

Diolch hefyd i Anti Angharad, Anti Jade ac Anti Lisa am eu holl waith caled gydol y tymor hwn.

Ti A Fi

Prysur yw Ti a Fi y dyddiau yma! Daeth Cariad y Clown i ymweld â'r plantos bach y tymor diwethaf ac fe gawsom hwyl rhyfeddol! Mae'r teganau a'r gweithgareddau celf yn mynd yn dda gyda'r plant – a'r mamis a dadis yn cael siawns i gael paned a sgwrs! Hoffai bawb ddiolch i Haf, Nia a Rhian am roi o'u hamser i redeg y grŵp gydol y flwyddyn ddiwethaf.

Dewch i ymuno yn yr hwyl ym mis Medi bob bore Gwener 9.15 - 10.45 yn 'Stafelloedd yr Hen Eglwys, Radyr. Croeso cynnes i bawb!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Rhian ar 029 20842038 neu joelandrhian@ntlworld.com

Côr 'Calonnau Gleision' Caerdydd yn cipio'r 10

Roedd lleisiau Côr Caerdydd i'w clywed dros Dreganna i gyd nos Sadwrn yr Eisteddfod wrth iddynt ddathlu carreg filltir arbennig iawn, sef cipio'r cwpan i gorau cymysg dros 45 o leisiau am y degfed tro ers iddo gael ei ffurfio yn 1992. Mae ymrwymadau eraill wedi atal y côr rhag cystadlu ers tair mlynedd ond dyma nhw, yn ôl ar y llwyfan mawr unwaith eto. Roedd yr aelodau'n teimlo bod y calonnau gleision a wisgwyd gan ferched y côr wedi dod â lwc!

Mae'r arweinydd, Gwawr Owen, sy'n dod yn wreiddiol o Geredigion, yn awr yn gweithio fel Gweinyddwr Artistig gyda [Academi Llais Prifysgol Caerdydd](#), a gafodd ei sefydlu ym mis Ionawr 2007 o dan gyfarwydd y canwr byd-enwog, Dennis O'Neill CBE.

Os hoffech chi ymuno, neu os ydych yn gyn-aelod ac yn barod i ail ymuno, cysylltwch â Gwawr Owen (2069 1924) er mwyn cael mwy o wybodaeth. Nos Sadwrn, Hydref 4ydd, bydd Côr Caerdydd yn perfformio yng Nghapel Wesley ar Nottingham Street fel rhan o gyngerdd arbennig i ailagor y capel ar ôl ei adnewyddu.

Siân Couch

Dawnswyr a'u cerddorion yn serennu

Cafodd Cwmni Dawns Werin Caerdydd wythnos Eisteddfod brysur a llwyddiannus iawn yng Nghaerdydd eleni. Roedd y Cwmni'n perfformio yn y Neuadd Ddawns a'r Babel Lân a hefyd yn trefnu ac yn gofalu am babel Cymdeithas Ddawns Werin Cymru – yn ogystal â chystadlu!

Am y tro cyntaf, gwnaeth y Cwmni gystadlu yng nghystadleuaeth Tlws Cymdeithas Ddawns Werin Cymru. Cafwyd gwledd o ddawnsio yn y rhagbrawf, gyda saith tîm yn cystadlu, a llwyddodd y Cwmni i ddod yn ail mewn cystadleuaeth arbennig o dda.

Uchafbwynt yr wythnos i'r Cwmni Dawns, beth bynnag, oedd y brif gystadleuaeth ar y dydd Sadwrn olaf – Cystadleuaeth Tlws Coffa Lois Blake – (wedi'i henwi ar ôl un o atgyfodwyr dawnsio gwerin yng Nghymru) lle roedd rhaid perfformio dwy ddawns – "Dawns Forus Gymreig" a "Dawns Flodau Nantgarw" mewn rhaglen o 12 munud. Roedd pedwar tîm yn cystadlu a daeth y Cwmni i'r brig mewn cystadleuaeth safonol a chlos.

Yn ystod yr wythnos roedd y cerddorion a oedd yn cyfeilio i'r dawnsio yn cael eu beirniadu ar sail y cymorth roeddynt yn ei roi i'r dawnswyr. Mae'r

Cwmni yn lwcus iawn bod gennym grŵp arbennig o gerddorion ac fe lwyddodd nhw, hefyd, i ennill y wobr gyntaf.

Dai James

GALW MYFYRWYR UWIC 2008-2009

Mae Cymdeithas Gymraeg (GymGym) UWIC yn croesawu myfyrwyr UWIC - hen a newydd!

Byddwn yn trefnu nifer o ddigwyddiadau amrywiol a chyffrous gan gynnwys:

Taith i gêrn Yr Alban v Cymru yng Nghaeredin, Chwefror 2009,
Dawns Rhyng-golegol Aberystwyth 2008, Eisteddfod Rhyng-golegol 2009,
Tîm 5 bob ochr pêl-droed
a nosweithiau cymdeithasol o safon!

Deuch i'n stonin yn ystod Wythnos y Glas ar gampws Cyncoed. Ymunwch â grŵp Facebook: Cymdeithas Gymraeg UWIC.

Neu e-bostiwch ni am fanylion: gymgym.uwic@hotmail.com.

Jonathan Fry,
Is-lywydd Cymdeithas Gymraeg UWIC 2008-2009

Help

CYFRIFIADUROL

- Gwersi (I bob lefel)
- Cymorth
- Gwasanaethau cyfrifiadurol
- Gwefannau



Ffoniwch

07748800341

gareth@helpcyfrifiadurol.co.uk

Microsoft
CERTIFIED
IT Professional

www.helpcyfrifiadurol.co.uk



Mae MEITHRINFA NEWYDD DDWYIEITHOG wedi agor yn Hen Laneirwg, Caerdydd yn cynnig sesiynau gofal llawn dydd ac hanner diwrnod.

Mae yna hefyd gludiant plant i Ysgol Bro Eirwg ac Ysgol Y Berllan Deg, clwb brechwast, ar ôl ysgol a chlwb gwyliau.

Bydd Cylch Ti a Fi Plantos yn dechrau o'r 4ydd o Fedi ymlaen.

Rydym yn aelodau brwdfrydig o MYM.
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Lowri ar 02920 798333 neu ar lowri.mifsud@lccweb.co.uk

Newyddion o'r Eglwysi

Minnie Street, Caerdydd

Cydymdeimlo

Cofiw'n yn ddiolchgar am fywyd **Huw Davies** (Caerfyrddin) a fu farw ganol mis Gorffennaf. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i rieni, Vera a Seiriol Davies (Llandaf) ynghyd â'i chwaer, Nan, a'r teulu.

Priodas

Dymunwn yn dda i **Rachel a Paul Garside**, ac i **Elen ac Owen Lloyd Hughes** yn dilyn eu priodasau ym mis Mehefin.

Eisteddfod!

Llongyfarchwn bawb fu'n rhan o lwyddiant yr Eisteddfod yng nghaeau Pontcanna ddechrau Awst. Bu llawer o'n haelodau wrthi'n brysur yn cystadlu, cyflwyno, hyfforddi, stiwardio, arwain a chynorthwyo mewn nifer o ffyrdd. Llongyfarchiadau i bob yr un ohonynt am eu gwaith. Llongyfarchiadau arbennig iawn i **Gwmni Drama Minny Street** ar ennill y gystadleuaeth i gyflwyno drama fer. Derbyniodd perfformiad Zac Davies, Glyn Evans, Owain Llyr Evans ac Elinor Patchell o'r ddrama "Dydd y Cymod" ganmoliaeth haeddiannol, gyda Hywel Gwynfryn yn derbyn y wobwr am gyfarwyddwr gorau'r cwmnïau amatwr. Rhaid diolch a llongyfarch hefyd bawb fu'n cefnogi a chynorthwyo "tu ôl i'r llenni" – yn arbennig Dyfrig Davies, Gill Griffiths, Dwyfor Jones, Elfrys Jones a Robin Griffith (o'r Crwys). Llongyfarchiadau hefyd i **Barti Llefaru Minny Street**, dan hyfforddiant Rhiannon Evans, ddaeth yn gydradd trydydd mewn cystadleuaeth niferus eu hymgeiswyr.

Penwythnos Ieuenctid

Diolch i Catrin a Sioned Treharne am grynhoi gweithgareddau'r penwythnos yn yr adroddiad isod. Ddiwedd Mehefin aeth criw o aelodau Clwb Ieuenctid Minny Street i Goleg Iwerydd yn Sain Dunwyd – y bedwaredd flwyddyn yn olynol i rai! Eleni cawsom aros yn un o dai'r coleg, yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol pan arhosom yn y *Barracks*. Cawsom gyfleoedd i gymdeithasu fel grŵp yn ystod ein cyfnodau rhydd ac yn yr hwyr. Trefnwyd llu o weithgareddau i'n diddanu, gan gynnwys y gêm Pringles blynyddol ac, am y tro cyntaf, *'I'm a Minny Celebrity, Get me out of here!'*. Cawsom ein profi ar ein gwybodaeth gyffredinol a Beiblaidd, ein

Bethel, Rhiwbeina

Bu farw dau o'n haelodau yn ystod Gorffennaf, sef Mrs Meirwen Davies, Rhiwbeina, a Mr Gareth Thomas, yr Eglwysnewydd. Roedd Meirwen yn 87 oed, yn hannu o Ystalyfera ac yn a t h r a w e s w r t h e i galwedigaeth. Cydymdeimlir yn fawr â'i merched, Gwenda ac Eirlys a'u teuluoedd. Mi symudodd Gareth, 79 oed, a'i briod Mary i'r Eglwysnewydd bum mlynedd yn ôl o ardal y Trap ger Llandeilo. Cydymdeimlir yn fawr â Mary a'i merch Julie a'i theulu. Bu Meirwen a Gareth yn hynod o ffyddlon i Fethel a gwasanaethwyd yn eu hangladdau gan y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan.

Llongyfarchiadau mawr i Nerys Jones, yr Eglwysnewydd, am lwyddo yn ei harholiadau terfynol fel meddyg, a phob dymuniad da iddi hi yn ei swydd gyntaf yn Ysbyty Glangwili.

Llwyddodd drama fer gan Anna-Lisa Jenaer gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth SgriptSlam yn Theatr y Maes. Pob lwc iddi hi gyda'r ysgrifennu creadigol.

gallu corfforol a'n gallu i lyncu bwydydd ych-a-fi! Bob nos roedd un grŵp yn gyfrifol am lunio a chynnal epillog ar thema arbennig a oedd yn berthnasol i'r penwythnos.

Ar y nos Wener cawsom wers mewn saethyddiaeth. Roedd anelu yn ofalus yn angenrheidiol er mwyn osgoi'r cosbau – o ddawnsio fel ffŵl i rowlio ar y llawr gwlyb neu neidio i mewn i'r pwll nofio awyr agored yn ein dillad am naw o'r gloch y nos! Roedd y cwrs rhaffau yn dasg a hanner, gyda phob un ohonom wedi ein cysylltu â rhaff ac yn straffaglu dros y rhwystrau amrywiol a niferus. Doedd y twneli mwd ddim yn drugarog wrthym chwaith – roedd pob modfedd o'n dillad wedi ei gorchuddio â mwd drewllyd a gwlyb erbyn i ni orffen. Er nad oedd mwd yn y pwll awyr agored roeddem (yn naturiol!) yn wlypach fyth wedi'r gweithgaredd canŵio. Gêm polo dŵr oedd uchafbwynt y sesiwn nofio nos Sadwrn, gydag ochr gystadluol y bechgyn yn ei hamlygu ei hun yn ystod y gêm a'r rasys diddorol o naill ben y pwll i'r llall. Cyn gadael bore Sul, cawsom dro ar y wal ddringo gyda rhai ohonom yn fwy dawnus nag eraill. Diolch yn fawr i Owain a Lona am drefnu penwythnos gwych a llawn hwyl unwaith eto!

Tabernacl, Yr Ais

Priodas

Llongyfarchiadau i Aled John a Lynwen de la Taste ar eu priodas ddiwedd mis Gorffennaf. Eu dymuniad ar ddiwedd y gwasanaeth oedd gwneud casgliad tuag at Gronfa'r Organ ac fe gasglwyd £325.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Lisa Thomas a Daniel Morrish ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

Genedigaeth

Llawenydd i Cerith ac Amy Williams oedd cyhoeddi genedigaeth Magi Beth, chwaer i Gruffydd ac Arwen. Mae Magi Beth yn wyres i Marian ac Arfon Williams.

Penblwydd yn 90 oed

Estynnwn ein llongyfarchiadau cynnes i Mrs Margaret Foulkes ar dathlu ei phenblwydd yn 90 ym mis Awst. Mae gwreiddiau Margaret yn Sir Benfro a bu'n athrawes Ffrangeg yn Ysgol Cathays High am gyfnod hir.

Clwb Rotari Bae Caerdydd

Etholwyd Malcolm McGreevy, gŵr Calan, yn Llywydd Clwb Rotari Bae Caerdydd am y flwyddyn 2008-09. Mae gan ei glwb raglan gyffrous o waith gwirfoddol gyda phrosiectau yn y gymuned leol a thramor.

Llwyddiant yn Llangollen

Roedd Trystan ac Osian Gruffydd, meibion Lowri a Hefin, yn aelodau o dîm buddugol Adran Bro Taf yn y gystadleuaeth Dawnsio Gwerin i blant dan 16 oed.

Yr Ysgol Sul

Daeth tymor Mair Long fel arolygydd i ben a diolch iddi am waith clodwiw dros ben yn ystod y flwyddyn. Cytunodd Marc John Williams i arwain y gweithgareddau dros y flwyddyn nesaf.

Eisteddfod Caerdydd

Bu llu o bobl y Tabernacl yn amlwg ymhob agwedd o fywyd yr Eisteddfod – boed yn gystadlu, darlithio, cyflwyno, cyfeilio, stiwardio neu weini bwyd a diod. Gwerthfawrogwyd pob cyfraniad.

Bore Coffi

Aeth nifer o'r aelodau draw at Eirlys a Gwyn Jones yn Llanbedr-y-Fro ym mis Gorffennaf ac yna i'r Ridgeway yng Nghasnewydd ganol Awst i gartref Mair Owen - diolch iddyn nhw am eu croeso.

Ebeneser, Heol Siarl

Colli'r aelod hynaf

Ar ddiwedd mis Mai bu farw aelod hynaf Ebeneser, sef Ernest Price, yn 100 oed yn Cartref, Lake Side. Yr oedd ei dad yn weinidog gyda'r Annibynwyr yng Nglandŵr, Abertawe, ac fe gofiai pan yn blentyn lawer o enwogion y Pulpud Cymreig yn ymweld â'i gartref. Efallai bod rhai o ddarllenwyr y Dinesydd yn ei gofio'n cadw siop fferyllfa am flynyddoedd maith ar City Road. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogsgfa Thornhill 05 06 08. Cydymdeimlwn gyda'i deulu yn eu colled, yn enwedig Philip a Mari Price a'r wyron.

Y Siec Olaf

£17,284.77c oedd cyfanswm y siec derfynol a drosglwyddwyd i Gill Donovan, cynrychiolydd Cancer Care Cymru, ar ran aelodau Ebeneser, Caerdydd, gan Eleri Peleg Williams a Steffan Thomas yn y Cwrdd Plant ar fore Sul 6ed Gorffennaf. Bob blwyddyn rydym fel eglwys yn dewis elusen i'w chefnogi ac yn ystod 2007 - 08 dewiswyd CCC, sydd yn darparu nyrsys arbenigol sy'n cynghori a gofalu am ddiodefyrwr cancr. Wrth newid elusen yn flynyddol cawn gyfle i ddysgu mwy am yr anghenion sydd yn ein cymdeithas yn lleol ac yn fyd-eang gan gywain gwybodaeth a dangos cariad Duw yn ymarferol tuag at ein cyd-ddyn. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un llawn gweithgareddau a chafwyd llawer o hwyl a chyfleoedd i gymdeithasu wrth godi'r arian.

Diwedd tymor

Daeth diwedd tymor yr Ysgol Sul i ben ar 13eg Gorffennaf ar ôl blwyddyn brysur, llawn gweithgarwch. Cafodd y plant gyfle i fwynhau parti yng nghwmni ei gilydd a gwyllo ffilm yn y festri fach – diolch i dechnoleg y taflunydd digidol. Diolch iddynt am eu gwaith caled a'u ffyddlondeb i'r Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn.

Sul y Cyfundeb.

Ar fore Sul 20 fed Gorffennaf daeth eglwysi Cyfundeb Dwyrain Morgannwg at ei gilydd yn ysgol Plasmawr. Daeth nifer dda i fwynhau arlwy o weithgareddau ar gyfer pob oedran, gyda gweithgareddau i'r plant meithrin, cynradd, ieuencid ac oedolion. Cafodd yr oedolion fynd i ddwy allan o dair seminar: Magu plant yn yr oes fodern, Gwyddoniaeth a Chrefydd, ac Eglwysi'n cenhadu yn y Gymru fodern. Yn ystod y gwasanaeth clo cafwyd cân, ddysgwyd

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Peg Williams, Llandaf, a fu farw'n dawel yn ei chartref ar 30 Mehefin. Bu'r angladd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 10 Gorffennaf, ac yn dilyn yn Amlogsgfa'r Ddraenen yn Llanisien.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Gareth Thomas, Yr Eglwys Newydd, a fu farw'n sydyn gartref ar 2 Gorffennaf. Bu'r angladd yn Amlogsgfa Llanelli ar 11 Gorffennaf.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Elwyn Thomas, Rhiwbeina gynt, a fu farw'n dawel yn 93 oed yng Nghartre Nyrsio Tŷ Coch, Llanisien, ar 5 Gorffennaf. Brodor o Abergwili oedd Elwyn, a bu'n gweithio i Wasg Prifysgol Cymru ac, ar ôl hynny, yn cadw siop papur newydd yn Rhiwbeina. Bu'r angladd ar 14 Gorffennaf yng Nghapel D. Caesar Jones yn Rhiwbeina ac yn dilyn ym Mynwent Pantmawr, Rhiwbeina.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar J. Ivor Brown a fu farw ar 19 Gorffennaf yn Ysbyty Felindre, yr Eglwys Newydd. Bu'r angladd y Amlogsgfa Llangrallo ac yng Nghapel y Tabernacl, y Barri, ar 25 Gorffennaf.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Idwal Walters, Rhiwbeina, a fu farw'n dawel yn 87 oed ym Mhlas Dyffryn Ffrwd ar 18 Gorffennaf. Bu'n Bennaeth yr Adran Saesneg yn Ysgol Uwchradd Cantonian am flynyddoedd ac yn ddarlithydd yng Ngholeg Cyncoed wedi hynny. Bu'r angladd ar 29 Gorffennaf yn Amlogsgfa'r Ddraenen, Llanisien.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Meirwen Davies, Rhiwbeina, a fu farw'n dawel yn Ysbyty'r Brifysgol ar 26 Gorffennaf. Bu'r angladd yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina, ar 1 Awst ac yn dilyn yn Amlogsgfa'r Ddraenen, Llanisien.

gan y plant meithrin yn ystod eu gweithgareddau. Diolch iddynt am adael eu marc ar weithgareddau'r bore. Edrychwn ymlaen at ddod at ein gilydd eto, ond fydd dim rhaid disgwyl blwyddyn. Bydd cyfle i Annibynwyr Cymru ddod at ei gilydd ar 4ydd Hydref yn nathliad 'Diwnod i'r Brenin' ar faes y sioe yn Llanelwedd. Welwn ni chi yno – gobeithio!

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd

Croeso i Trystan a Katherine Hallam a ffarwelio â Lewis Roderick

Mae mis Medi yn ddechrau ar gyfnod newydd yn ein hanes ni fel eglwys. Byddwn yn croesawu gweithiwr newydd i'n plith, sef Trystan Hallam sy'n dod yn wreiddiol o Dŷ-croes ger Rhydaman. Dyma'r eildro i'r eglwys gyflogi gweithiwr ychwanegol. Bu Lewis Roderick yn gwasanaethu'r eglwys am y ddwy flynedd diwethaf. Diolchwn iddo am ei ymroddiad brwdfrydig i waith Duw a dymunwn yn dda iddo wrth iddo symud i Lundain flwyddyn nesaf i barhau â'i astudiaethau Beiblaidd.

Yn ystod y flwyddyn bydd Trystan yn cael cyfle i gynorthwyo yng ngweithgareddau'r eglwys, cael hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth ac yn pregethu. Mae Trystan wedi priodi'n ddiweddar â Katherine, a dymunwn bob llawenydd iddynt wrth iddynt ymgartrefu yn yr eglwys ac yng Nghaerdydd. Un o'r gweithgareddau y mae Trystan yn bwriadu eu dechrau yw cyfarfod anffurfiol i drafod y Beibl yn Grangetown. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn a chyrrddau a gweithgareddau eraill yr eglwys yn www.cwmpawd.org.

Marw dau esgob â chysylltiadau â Chaerdydd

Ar ôl brwydro yn erbyn canser am ddwy flynedd, bron, bu farw'r Gwir Barchedig Anthony Crocket, Esgob Bangor, yn 62 oed yn Ysbyty Gwynedd ar 30 Mehefin. Bu'n byw yng Nghaerdydd am gyfnod, a dysgodd Gymraeg ar Gwrs Wlpan yng Nghanolfan Yr Urdd, Treganna. Brodor o Bontypridd oedd yr Esgob, ac fe'i penodwyd yn Esgob Bangor yn 2004. Bu'r angladd yn Eglwys Gadeiriol Bangor ar 7 Gorffennaf. Cydymdeimlwn yn fawr â'i deulu yn eu colled.

Bu farw y Tra Pharchedig George Noakes, cyn Archesgob Cymru, ar 14 Gorffennaf, yn 83 oed. Cafodd ei gysegru'n Esgob Tŷ Ddewi yn 1982 cyn ei ddirchafu'n Archesgob Cymru o 1987 tan ei ymddeoliad yn 1991. Yn ystod ei yrfa bu'n ficer yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd.

COLLI UN O'R FFYDDLONIAID SELOCAF

Prynhawn Seremoni Coroni Eisteddfod Caerdydd 2008 dywedwyd ffarwel wrth un o garedigion a chefnogwyr yr Ŵyl Genedlaethol, y cyfaill, Richard Hall Williams, gŵr Nia, a thad a thad-yng-nghyfraith Beti Wyn a Ceri, Carys a Geraint, Huw a Leonie, Gareth a Caryl, a thaid, Owen, Geraint, Elin, Dewi, Dafydd, Bethan, Ifan a'r efeilliaid bach, Tom a Greta.

Roedd Richard Hall Williams yn ddyn arbennig iawn, yn ŵr bonheddig, mawr ei barch mewn llawer cylch o fywyd yng Nghymru a thu hwnt. Hyn yn deillio o'i gyfraniadau gwerthfawr i fyd addysg, diwylliant, gwleidyddiaeth a chrefydd, fel darlithydd, cymdeithaswr a gwas sifil o'r radd uchaf.

Ganwyd Richard yn Rhiwbeina, yn fab i Edward a Kitty Hall Williams, ond magwyd ef a'i frawd Eryl yn Y Barri. Roedd yn cyfrif ei hun yn "Barry Boy" a mynych y cyfeiriad at ei ddyddiau cynnar yno. Yr oedd Richard, fel Eryl, yn ddyn o egwyddor. Yr oedd yn gas ganddynt drais o unrhyw fath ac yr oeddent ill dau yn heddychwyr mawr. Wedi gorffen ei addysg yn yr Ysgol Elfennol ac Ysgol Ramadeg y Bechgyn, aeth i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ac yno y graddiodd mewn Economeg. Yn bwysicach na hynny, yno y cyfarfu â Nia, cariad mawr ei fywyd. Priodwyd hwy yng Nghapel Seion, Ealing Green, Llundain, ar Ragfyr 16, 1949. Cawsant gyd-gerdded llwybrau bywyd am bum deg a naw o flynyddoedd.

Dechreuodd weithio yn Adran Cynllunio Swydd Derby cyn mynd yn ddarlithydd yng Ngholeg Kelsterton, Cei Conna. Wedi cyfnod yno apwyntiwyd ef yn ddarlithydd yng Ngholeg Technegol Abertawe yn 1960. Yn 1967 symudodd i Gaerdydd i fod yn was sifil yn y Swyddfa Gymreig ac yno y bu tan ei ymddeoliad yn 1986. Cyflawnodd waith arbennig yn y swydd honno fel Is-Ysgrifennydd. Tra oedd yn yr Adran lechyd bu'n gyfrifol am arolygu'r broses o greu Cynghorau lechyd Cymunedol yn siroedd Cymru. Symudodd i Aberystwyth i Adran Amaethyddol y Swyddfa Gymreig yn 1978, ond roedd y dynfa at Gaerdydd yn rhy gryf ac, ymhen tair blynedd, yn ôl y daethant.

Yr oedd Richard yn ymwybodol ac yn falch iawn o'i dras a'i gefndir, ac yn arbennig o'i wreiddiau yn enwad y Methodistiaid Calffinaidd.

Roedd 'na ddau gapel yn agos iawn at ei galon, heb sôn am Seion, Ealing, sef Penuel, Y Barri, a Salem, Canton.

Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd – Cinio Eisteddfod



Cynhaliwyd cinio arbennig ar ddydd Iau Awst 7fed pan ddaeth rhyw ddeugain o aelodau a'u ffrindiau ynghyd i fwynhau cinio a chwmi'r Athro Hywel Teifi Edwards yng Ngwesty Churchills. Ar ôl cinio hamddenol, eisteddodd pawb yn ôl i fwynhau perfformiad cystal ag unrhyw berfformiad a oedd yn digwydd rhyw hanner milltir lawr y ffordd. Cawsom hanes gŵyl arall - Pasiant cenedlaethol

Cymru - a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn haf 1909 - llawer o hanesion am y prif gymeriadau a oedd wedi actio ynddi. Yn y llun gyda Hywel Teifi mae ei hen gyfaill, y Parchedig Cynwil Williams, a hefyd Llywydd y Cylch, Alun Reynolds. (Am fanylion am gyfarfodydd y tymor newydd cysylltwch â Tony Couch, ajcouch@yahoo.co.uk neu 029 2075 3625.)

Mynych y soniai am ei blentyndod yn Mhenuel.

Ymaelodd Nia a Richard yn Salem yn 1971, wedi iddynt symud o Abertawe. Bu'n ffyddlon i'r achos yno hyd y diwedd, yn un o bileri Salem, gan gyflawni gwaith mawr dros y blynyddoedd. Etholwyd ef yn Flaenor yn 1983 ac yn Ysgrifennydd yn 1984. Cyflawnodd y swydd honno gydag urddas a thrylwyredd am ddwy flynedd ar bymtheg. Bu'n Ysgrifennydd Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg am ddeng mlynedd, gan arwain yn ddoeth a chyfeirio penderfyniadau pwysig. Roedd hefyd yn aelod o bwyllgorau pwysig y Gymanfa Gyffredinol – hyn yn dangos eu hymddiriedaeth yn ei ddawn a'i allu gweinyddol. Wrth ymaelodi yn Salem yn 1971, roedd Richard yn dal i fyny â Salem y gorffennol, a oedd yn meddu ar berthynas agos â'i deulu yn ymestyn yn ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr hen Salem a'r Salem newydd yn Market Road a agorwyd Nadolig 1911. Bu ei fam, Kitty Hughes, yn organyddes yno ac yno hefyd y priododd ag Edward Hall Williams.

Yn wir, roedd ei wreiddiau'n ddyfnach na hynny. Roedd ei daid, J. Vernon Hughes, a'i hen ewythr, Gwilym Hughes, yn flaenllaw iawn yn yr eglwys. Bu Gwilym Hughes yn Ysgrifennydd am gyfnod hir. Disgynnodd ei fantell yntau maes o law ar Richard. Mae ei wreiddiau

yn ddyfnach eto yn hanes Methodistiaeth Calffinaidd gan fynd yn ôl i deulu Richard Williams arall o Bontdolgadfan, hen-hendaidd ein Richard ni. Mab iddo yntau oedd y bardd a'r englynwr, Gwilym Cyfeiliog, a'i fab yntau, sef taid Richard, oedd y Parchedig John Williams, gweinidog Engedi, Ffestiniog, a Salem, Dolgellau, cyn cymryd swydd Ysgrifennydd y Genhadaeth Gartref yng Nghymru a rhannau o Loegr. Priododd ei daid â Sarah Anne, merch Capten a Mrs Margaret Hall, Aberystwyth. I ni y rhai chwilfrydig a ofynnodd droeon o ble daeth yr 'Hall', dyna'r ateb i chi! Does dim synnu, felly, maint cariad a theyrngarwch Richard i achos Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac i Salem, Canton, yn arbennig. Ni roddodd dim fwy o bleser iddo wedi ymddeol, na mynd ati i ymchwilio a darllen hen adroddiadau a dogfennau a maes o law gyhoeddi ei lyfr Hanes Salem 1856 - 2000.

Yr ydym ni, ei gyd-aelodau, ei gyd-flaenoriaid a'i Weinidog, yn gweld ei eisau. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Nia a'i theulu yn eu colled enfawr.

Fel y cyfeiriwyd uchod, cyflawnodd waith mawr mewn llawer cylch a chyfeiriad dros y blynyddoedd. Coroner ei lafur di-flino a'i gariad tuag at ei deulu, ei gapel a'i Gymru.

D. Haydn Thomas



www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

Delwedd newydd Menter Caerdydd

Fel y mae nifer ohonoch wedi sylwi, mae Menter Caerdydd wedi cael delwedd a logo newydd i gyd-fynd a dathlu 10 ers sefydlu'r Fenter eleni. Mae staff y Fenter ac Elfyn wedi bod yn brysur iawn yn paratoi'r ddelwedd newydd a fydd i'w weld ar holl waith y Fenter o hyn ymlaen!

Ffwrnais Awen yn perfformio ANNIE!

Llongyfarchiadu mawr i griw Ffwrnais Awen ar eu cynhyrchiad cyntaf dros yr haf! Roedd Stiwdio Weston yng Nghanolfan y Mileniwm dan ei sang ar gyfer dau befformiad o Annie ar Orffennaf 22, a cafwyd y cyfle hefyd i berfformio hefyd ar Theatr y Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Diolch o galon i Anwen, Anwen, Charlie, Sion a phawb arall bu'n brysur yn paratoi – mae'r plant yn sicr wedi cael cyfleoedd bythgofiadwy, ar gynulleidfa wedi mwynhau mas draw!

Fe fydd Ffwrnais Awen yn ail ddechrau tymor newydd ddiwedd mis Medi, a bydd blwyddyn brysur arall o'n blaen wrth baratoi i gystadlu yn 'Steddfod yr Urdd 2009. Am fwy o wybodaeth am Ffwrnais Awen, cysylltwch ag Angharad – angharad@mentercaerddd.org

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd

Mae'r wythnosau wedi'r 'Steddfod wedi bod yn rhyfedd iawn ar ôl yr holl drefnu, a'r edrych ymlaen.

Llwyddiant ysgubol oedd cyngerdd y Fenter ar y bore Sadwrn cyntaf, pan ddaeth dros 400 o blant a'u teuluoedd i'r cyngerdd ar gyfer babanod ysgolion cymraeg y ddinas yn y Babell Lân. Diolch byth am y stiwardiaid i rheoli'r dyrfa fawr o rhieni, theulu a ffrindiau oedd aros i fynd mewn i weld y plant yn canu. Diolch yn fawr i Branwen Gwyn am arwain ac i'r holl athrawon am eu cydweithrediad parod.

Daeth tyrfa fawr hefyd i weld Ffwrnais Awen yn perfformio Annie yn Theatr Fach y Maes – bu'n rhaid cau'r drysau'n gynnar yn anffodus oherwydd nifer y bobl yn aros.



Roedd hi'n wythnos wych, er gwaethaf ambell ddiwrnod o law! Diolch i bawb am alw mewn i'n gweld yn ystod yr wythnos. Gobeithio na fydd rhaid i ni aros 30 mlynedd arall cyn cael 'Steddfod arall yng nghanol y ddinas!

Clybiau Plant Menter Caerdydd

Fe fydd y clybiau i gyd yn dechrau o Fedi 22 ymlaen

Clwb Nofio	Clwb Cloccio
Clwb Sbaeneg Plant	Clwb Tennis
Clwb Dawns Stryd	Clwb Celf
Clwb Drama Bach	Clwb Rygbi

Fe fydd llyfryn coferstru yn cael ei ddsbarthu i'r ysgolion ddechrau fis Medi. Ebstiwech angharad@mentercaerdydd.org am fwy o fanylion.

Clybiau Oedolion

Clwb Pêl-Rhwyd i Fenywod
Clwb Rhedeg
Gwersi Sbaeneg trwy gyfrwng y Gymraeg
Cynhrai Sboncen
Cynhrai Badminton
Cysylltwch ag Angharad yn swyddfa am fwy o fanylion.

Clwb Sbargo

Clwb cymdeithasol i blant ag anghenion arbennig.
Fe fydd y clwb yn ail ddechrau Nos Fercher, Medi 24, yn Ysgol Gyfun Plasmawr. Cysylltwch ag Angharad am fwy o fanylion.

Cwis Cymraeg

Fe fydd cwis cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Medi 28 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person.

Welsh for Parents

Diolch i Bartneriaeth Pobl Ifanc Caerdydd am grant yn ddiweddar i rhedeg y cwrs 8 wythnos poblogaidd 'Welsh for Parents' eto'r Hydref hwn. Fe fydd sesiwn i ddechreuwr a sesiwn pellach i'r rhai hynny sydd eisioes wedi cwblhau'r cwrs i ddechreuwr. Fe fydd sesiynau ar gael yn ystod y dydd a gyda'r nos. Am ffurflen

gais neu wybodaeth pellach, cysylltwch â Sian Lewis – 029 20 56 56 58 neu sianlewis@mentercaerdydd.org



Clwb Cloccio Menter Caerdydd yn dilyn perfformiadau yn y Neuadd Ddawns ac ar y Llwyfan Perfformio ar Faes yr Eisteddfod.



Sticeri Car ar gael o swyddfa'r Fenter nawr!



Ym 1883, roedd y Frenhines Victoria yn rheoli chwarter y byd, roedd Robert Louis Stevenson yn achosi cynnwrf gyda *Treasure Island*, enillodd Blackburn Olympic Gwpan yr FA, a chanodd y clychau ar gyfer agoriad Prifysgol Caerdydd. Roedd ganddi 13 o staff, 151 o fyfyrwyr, ychydig iawn o incwm neu adnoddau ac wedi ei lleoli mewn adeilad adfeiliedig a fu'n ysbty gynt.

Cant dau ddeg pum mlynedd yn ddiweddarach, mae gan y Brifysgol oddeutu 6,000 o staff (gan gynnwys dau sydd wedi ennill Gwobr Nobel), 26,000 o fyfyrwyr, adeiladau a chyfleusterau rhagorol yng nghanolfan ddinesig y ddinas a champws Parc y Mynydd Bychan, a throsiant blynyddol o £370M – ac mae'n un o blith 100 o brifysgolion gorau'r byd. Mae'n rhan o Grŵp Russell o ugain prifysgol gorau Prydain sy'n cael eu harwain gan ymchwil ac mae newydd ennill Gwobr Pen-blwydd y Frenhines am ragoriaeth am y trydydd tro.

Roedd goleuo'r Prif Adeilad mewn modd trawiadol a negeseuon o gefnogaeth am 125 mlynedd o gyflawniad yn nodi dechrau dathliadau pen-blwydd y Brifysgol ym mis Ionawr. Fe'i defnyddiwyd i gyhoeddi blyyddyn brysur o gyngherddau arbennig, seremonïau gwobrwyo, cynadleddau, darlithoedd, chwaraeon, digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol – i gyd wedi'u cynllunio i ddod â'r ystod ehangaf o bobl i nodi'r flwyddyn bwysig hon at ei gilydd.

Lansiwyd apêl '125 ar gyfer 125' y Brifysgol hefyd. Nod yr apêl, sy'n adeiladu ar y thema pen-blwydd 'Rhoi', yw codi 125 o ysgoloriaethau ychwanegol i helpu'r cenedlaethau nesaf o fyfyrwyr ac ymchwilwyr ifanc wireddu eu huchelgais academaidd yng Nghaerdydd. Bydd y Brifysgol yn rhoi arian cyfatebol ar gyfer y £100,000 cyntaf sy'n cael ei godi.

Yr Eisteddfod Genedlaethol, lle'r oedd y Brifysgol yn fwy amlwg nag erioed o'r

blaen, oedd un o uchafbwyntiau'r pen-blwydd hyd yn hyn. Gwelwyd nifer o ysgolion y Brifysgol yn cymryd rhan, ac anrhydeddwyd staff a myfyrwyr mewn digwyddiadau amrywiol yn yr Eisteddfod.

Roedd y Brifysgol hefyd yn noddwr balch o Goron fawreddog yr Eisteddfod, yr oedd ei dyluniad yn adlewyrchu treftadaeth a phensaerniaeth y Brifysgol. Roeddem yn hynod o falch bod teilyngdod!

Wrth i'r Brifysgol agosáu at Ddiwrnod ei Sefydlu ar 24 Hydref, mae'r ffocws wedi troi at gyngerdd gala unigryw yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar 19 Hydref. Mewn ymgais i roi noson fythgofiadwy i'r gynulleidfa, mae Prifysgol Caerdydd wedi dod â phobl sy'n fyd-enwog at ei gilydd, gan gynnwys y tenor o Gymru, Dennis O'Neill CBE a'r soprano sydd ag iddi enw rhyngwladol, Rebecca Evans, gydag Academi Llais Ryngwladol Caerdydd a cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru. Bydd hyn oll yn cael ei arwain gan y cyn-fyfyriwr o Brifysgol Caerdydd, Huw Edwards, sydd bellach yn gweithio yn Adran Newyddion y BBC.

Dywedodd yr Is-Ganghellor, Dr David Grant: "Mae ein Pen-blwydd yn 125 oed yn dathlu'r cyfan y mae pob un o'n staff a'n myfyrwyr wedi ei gyflawni, ac mae hefyd yn cydnabod potensial yr hyn y gellir ei gyflawni ac a fydd yn cael ei gyflawni yn y dyfodol. Fe fyddwn ni'n dathlu'r sylfeini yr ydyn ni wedi adeiladu ein llwyddiannau presennol arnyn nhw, ac fe fyddwn ni'n cydnabod y pellter sydd yn rhaid i ni ei deithio o hyd. Mae hon yn addo bod yn daith gyffrous. Mae arnon ni eisiau adeiladu etifeddiaeth hyd yn oed yn gryfach i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol."

Os hoffech ragor o wybodaeth am ddathliadau 125 mlynedd y Brifysgol, gan gynnwys y cyngerdd gala a'r newyddion diweddaraf am godi arian, ac i ddysgu am yr erthygl arbennig, Fy Nghaerdydd, trowch at y wefan ddynodedig www.caerdydd.ac.uk/125

Eisteddfod Beijing!

Nad anghofiwn y Gemau Olympaidd ben draw'r byd yn Beijing – a champau gwych rhai o'n 'Dinesyddion'.

Daeth gwrhydri'r beiciwr Geraint Thomas, o ardal Llwynbedw yng Nghaerdydd, â thrydedd medal aur i Gymru! Sefydlodd e a'i dîm record byd newydd – record sy'n debyg o sefyll am flynyddoedd! Nicole Cook a'r rhwyfwr Tom James oedd y ddau arall, wrth gwrs.

Yn y ras dŵr-agored dros 10km cafwyd perfformiad gwych gan David Davies o'r Barri i ennill y fedal arian, a daeth y rhwyfwr Tom Lucy, hefyd, â medal arian i Gymru. Pumed oedd Christian Malcolm, a aned yng Nghaerdydd, yn y ras 200m – ond nid ar chwarae bach y mae cyrraedd y rownd derfynol yn y Gemau Olympaidd, a thipyn o gamp oedd dod o fewn eiliad i'r pencampwr newydd, Usain Bolt!

Ymfalchiwn yn llwyddiant y chwech a'u llongyfarch yn wresog iawn.

Mae campau'r Olympwyr hyn, os bosib, yn ychwanegu pwysau i'r ddadl dros i'r Cynulliad sefydlu Oriol Anfarwolion Chwaraeon Cymru!

**Jonathan Richards,
MBA; BSc.(Hons.)**

**Ymgynghorydd
Ariannol Annibynnol**

Arbenigo mewn darparu cyngor ariannol diduedd yn y meysydd canlynol:

Cynilion a Buddsoddiadau
(gan gynnwys Cronfa
Ymddiriedolaeth Plant a
chynllunio ar gyfer ffioedd
ysgol/prifysgol)

**Cynllunio Ymddeoliad a
Diogelu**
(o Yswiriant Bywyd i Salwch
Difrifol, o Ailosod Cyflog i
Ddiswyddiad).

ebost: jrichards10@sky.com

Ffôn Symudol: 07957 140650

Gŵyl Llên y Lli 2008: Deffro'r Dychymyg 8-14 Hydref Bae Caerdydd



Gŵyl lenyddol ddwyieithog a drefnir gan yr Academi ym Mae Caerdydd yw Llên y Lli. Bydd yn agor ar nos Fercher 8 Hydref gyda noson o **Sgriptiau Sydyn**. **Daniel Glyn** fydd yn cyflwyno doniau rhai o awduron ifainc mwyaf cyffrous y ddinas sef **Ceri Elen, Huw Foulkes, Lleucu Siôn, Elis Gomer** a **Gwilym Dwyfor**.

Tro'r beirdd fydd hi yn **Y Gig Cymysg**, pan fydd **Iwan Rhys, Lois Barrar** a **Rhys Iorwerth** yn serennu mewn noson ddwyieithog, aml-gelfyddydol ar y cyd â **PoetryFilm**. I gloi'r noson, bydd **Derwyddon Dr Gonzo** yn chwarae set fyw.


A oes lle i lenyddiaeth fel arf gwleidyddol? Dyma un o'r cwestiynau fydd **Betsan Powys** yn ei holi mewn trafodaeth yn **Nhŷ Hywel** gyda **Catrin Dafydd, Dyfrig Jones** a **Dewi Prysor**.

Uchafbwynt yr ŵyl fydd dadorchuddio **Yr Injan Odli**, creadigaeth **Cymdeithas yr Rhyfeddod** a gomisiynwyd gan yr Academi yn arbennig ar gyfer yr ŵyl. Sut mae esbonio'r Injan unigryw? Bydd 24 o feirdd amlwg yn creu cwpled ar y thema 'Beth yw Dychymyg?' ac yn cael eu recordio yn adrodd y llinellau hyn. Yna, bydd pob cwpled yn cael ei danio gan gliced arbennig ar ffurf piano llawr, gyda'r gynulleidfa'n taro'r nodau. Y bwriad yw y gall unrhyw gwpled wneud synnwyr drwy ddilyn cwpled arall, gyda'r beirdd yn ymateb i'w gilydd ar hap. Felly, bydd cerdd newydd yn cael ei chreu drwy ddefnyddio cyfuniadau damweiniol o'r cwpledi gan feirdd yn cynnwys **Mererid Hopwood, Gwyn Thomas, Hywel Griffiths, Sian Northey** a **T James Jones**.

Cynhelir digwyddiadau yn siop lyfrau **Borders** yng nghanol y ddinas yn ystod yr awr ginio - **Tamaid o Lên** gydag awduron fel **Joanna Davies**. Gallwch hefyd edrych ymlaen at weithdy testlyniion **Eurig Salisbury**, sesiwn blogio a gweithdy **Mererid Hopwood** ac **Addysg y Cyfryngau Cymru** gyda'r Sgwadiâu Sgwennu.

Dim ond rhagflas yw hyn o'r arlwy i ddod. Mynnwch gopi o'r rhaglen lawn a rhagor o wybodaeth trwy gysylltu â'r Academi, Prif Weithredwr Peter Finch: 029 2047 2266 / post@academi.org / www.academi.org

CROESAIR Rhif 87 gan Rhian Williams



**Atebion i:
22, Heol Cae
Rhys,
Rhiwbeina,
Caerdydd.
CF14 6AN
i gyrraedd
erbyn
20 Medi
2008.**

Ar Draws

- Achosi tad arall i ddwyn (7)
- Dyn mawr yn dal pum deg caead (5)
- A oes perarogl fel hyn yn Lloegr? (3)
- Darn o gamp yn llunio ffrwyth (9)
- Ardal o Gaerdydd yn cuddio mewn ystrad urddasol (5)
- Agosau o gwmpas canol yr act i weld y dawnsio (7)
- Y ffatri sy'n cynhyrchu cartre'r pyramidiau (2,4)
- Palu twll bas i'r hwlcyn (6)
- Ymladd i gael dryw gwyllt mewn bro. (7)
- '____' ar ddelw'r Hwn a'i gwnaeth — Yn llawn o'i gariad Ef.' (C.W cyf) (5)
- Gwyllt yw brawd Enid, heb ffiniau (9)
- Pwff o awydd yn gwrthgilio (3)
- Crotan a lle mewn mil o destunau (5)
- Gwadna'i o'ma neu fe gei bigiad! (7)

I Lawr

- Epistol ydyw canol y lle i'w bostio (7)
- '____', dywed ar y mynydd, ledled y bryn ac ymhob man' (3)
- Sam yn colli'i ben yn dawel wedi'r mesur trydanol (5)
- Cas gŵr na charo'r wlad ____ (1'1,4)
- Aelod o'r cynulliad yn codi cyn y troad newydd i ofyn am elusen (7)
- Yn 11 mae Lisa Gwynn wedi drysu (9)
- Dario! Torrwyd y diwifr (5)
- 6 yn cymhlethu y brodwaith anorffenedig wedi dechrau da (9)
- Mae trefnu ffawd un pen stiward yn drafferthus (7)
- Yn frwd yn torri'r bat a naid gam (7)
- A yw Lloegr i droi'n wallgof? (6)
- 'Pe dymunwn olud ____ Chwim adenydd iddo sydd' (D.J) (5)
- Cam can cawr blin (5)
- 'Daeth cysgod sydyn dros y waun A ____ a chyffro lle bu cerdd' (I.D.H.) (3)

Atebion Croesair Rhif 86

Ar draws: 1 Cymod. 4 Rhaca. 8 Gwresog. 9 Ymuno. 10 Noeth. 11 Ansoddair. 13 Planed. 14 Helgwn. 16 Eneiniad. 17 Saig. 20 Efryd. 21 Dyn dewr. 22 Moel. 23 Diolch.

I Lawr: 1 Cegin. 2 Mor oer â'r eira. 3 Dysg. 4 Rhagenw. 5 Crynodeb. 6 Duw a'm gwaredo. 7 Sofren. 12 Cernodio. 13 Pleser. 15 Sandal. 18 Gwrych. 19 Cnwd.

Derbyniwyd 17 ymgais ac 16 yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Bryn Jones, Llangynnwr, Caerfyrddin.

Technoleg gwybodaeth i Gymru gyfan!

offer cyfrifiadurol | meddalwedd | rhwydweithio | e-bost | gwefannau

CYNNIG ARBENNIG: Laptop Acer Extensa Sgrin 15.4", cof 1GB, disg galed 80GB, DVDRW, Wi-Fi, Windows Vista, meddalwedd Office a gwrth feirws - bargaen am £350 (RRP £425)

Ydych chi eisiau prynu cyfrifiadurol ond ar goll efo'r holl gnigion a'r derminoleg?

Prynwch yn hyderus gan W&G - offer a meddalwedd yr ydym ni yn hapus i'w defnyddio a'u hargymell.

Mae Williams & Gwilym yn darparu offer cyfrifiadurol a chefnogaeth i unigolion a Chwmnïau dros Gymru gyfan.

Oes gennych chi gyfrifiadurol efo problemau?

Cysylltwch â Dilwyn am gyngor neu gwôt:

t: 02921 252299
m: 07976 254446



WILLIAMS & GWILYM

Dinistrio Rhan Bwysig o Dreftadaeth Caerdydd a'r Genedl

Llythyr Agored at Gynghorwyr Dinas Caerdydd

ac at Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol y Ddinas

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd fy swydd fel Ysgrifennydd Cylch Llyfryddol Caerdydd.

Y mae wedi dod i'n sylw fod Cyngor Dinas Caerdydd yn bwriadu gwerthu llawer o'r llyfrau prin sydd yn Llyfrgell y Ddinas, i dalu am ddodrefnu adeilad newydd y llyfrgell yng nghanol Caerdydd. Deallwn fod tŷ ocsiwn Bonhams yn Llundain wrthi'n paratoi rhestrau o'r llyfrau ar gyfer yr arwerthiant.

O ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd yr Ail Ryfel Byd, creodd Cyngor Caerdydd gasgliad ymchwil o statws cenedlaethol a rhyngwladol yn Llyfrgell Gyhoeddus Caerdydd – casgliad teilwng o brifddinas.

Gwnaed y penderfyniad i werthu llawer o lyfrau prin y Llyfrgell yn dilyn argymhellion mewn dogfen yn dwyn y teitl 'Disposal of Surplus [*sic*] Library Stock' (11/01/2007). Mae'r ddogfen honno yn cynnwys datganiadau megis 'they [y llyfrau prin] are unsuitable for use by anyone other than academics and specialists' – fel pe na bai gan Gaerdydd gymuned academiaidd sylweddol ac fel pe na bai am fod yn ddinas dysg ryngwladol!

Rhoddion yw llawer o'r eitemau dan sylw, wedi eu gosod yn Llyfrgell y Ddinas gan gymwynaswyr er budd tymor-hir Caerdydd, ei thrigolion a'r genedl. Er bod gan y Cyngor yr hawl cyfreithiol (o bosibl) i werthu'r eitemau hyn, yn sicr nid oes ganddynt yr hawl moesol i wneud hynny.

Rydym yn eich annog yn daer, felly, i wneud popeth yn eich gallu i wydroi'r penderfyniad gwarthus hwn i werthu rhan bwysig o dreftadaeth Caerdydd a Chymru, gweithred a fydd yn niweidio'n anadferadwy safle Caerdydd ym myd diwylliant a dysg, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Yr eiddoch yn gywir,

E. Wyn James

Ysgrifennydd, Cylch Llyfryddol Caerdydd

Anogwn ddarllenwyr y llythyr hwn i ysgrifennu at eich Cynghorwyr ac at eich Aelodau Cynulliad a'ch Aelodau Seneddol i bwysu arnynt i wneud eu gorau glas i rwystro'r arwerthiant cywilyddus hwn ac i gael y Cyngor i hyrwyddo eu casgliadau llyfrgell cyfoethog mewn modd teilwng o brifddinas Cymru.

Ysgol Gyfun Glantaf



Taith i'r Eidal

Mae i bob taith-gerdd ei straeon di-ri am beth ddigwyddodd i'r athrawon a'r disgyblion sy'n ei mynychu'r. Dyw'r egwyddor "What happens on tour stays on tour" ddim yn berthnasol i deithiau cerdd, yn enwedig yn yr achos yma. Cyn i mi ddod nôl o'r daith gyda fy mhigwrn mewn cast, roedd hanner athrawon Glantaf yn gwybod am fy anffawd cyn fy rhieni! Ond, dyna ddigon am ddamweiniau dwl. Roedd y daith yn wych. Fe wnaethom ni berfformio deirgawith yr wythnos honno, gan gynnwys un perfformiad mewn eglwys yn Florence (nid y Duomo, yn anffodus). Roedd swm y côr a'r offerynnau yn anhygoel oherwydd acwstig yr adeilad. Roedd y gynulleidfa yn llenwi'r eglwys bron â bod.. Roedd ymweliadau â threfi fel Sienna a Florence yn siawns i wneud ychydig o siopa, neu i fwynhau'r tywydd braf a'r adeiladau. Fe es i weld Eglwys Santa Croce, sy'n cynnwys beddau Machiavelli, Galileo, a Michelangelo – profiad bythgofiadwy! Roedd y nosweithiau yn fwyn, felly fe wnaeth y chweched dosbarth dreulio'r gyda'r hwyr allan ar y terras ar do'r gwesty, yn drachtio yr...awyrgylch! Rhaid sôn hefyd am y cwisis nosol, uchafbwynt y daith i... wel, neb. Ond roeddynt yn fodd i ddod i'n nabod ein gilydd yn well, ar draws ffiniau blwyddyn ysgol. Roedd y noson bowlio hefyd yn ddiddorol, gyda timoedd y cwis yn cystadlu yn erbyn eu gilydd a'r athrawon. Hyd yn oed wrth deithio nôl ar y bws o Lundain i Gaerdydd roedd pawb yn uchel eu hysbryd, wedi i wythnos o gerddoriaeth a mwynhâd yn haul Toscana! Ciao!

Gwyn eu byd y "gleision"bychan,

Hwy gant rygbi faint a fynnan

Llongyfrchiadau gwresog i Joshua Delf, Jac Hopkins, Llew Jones, Ieuan Matthews, Matthew Taylor, Rhys Paychell a David Young ar gael eu dewis i dim dan 16 Gleision Caerdydd. Ar gyfer y tim dan 18 enillodd Sion Hopkins, Owain Matthews a Michael Savery eu lle.

Gyda tri cynddisgybl eisioes yn y brif garfan-Jamie a Nicky Robinson a Jamie Roberts-edrychwn ymlaen yn obeithiol at weld y dydd y bydd Gleision Caerdydd yn maesu tim cyfan o gynddisgyblion Glantaf!!

Newyddion

Anrhydedd i Mathew Rhys

Dychwelodd Mathew Rhys, yr actor a chyn ddisgybl yn Ysgol Glantaf, o Los Angeles i Gymru ym mis Gorffennaf i dderbyn anrhydedd gan Brifysgol Aberystwyth. Hefyd, ar 8 Awst, cafodd ei urddo yn aelod o Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Caerdydd. Mae canmol ar ei bortread o'r bardd Dylan Thomas yn y ffilm gyfredol *The Edge of Love*. Llongyfarchiadau iddo a phob llwydd yn y dyfodol.

Pob lwc i Jason

Mae Jason Mohammad y darlledwr wedi ymddiswyddo o'i waith efo BBC Wales i weithio ar ei liwt ei hun yn y byd cyfryngol. Ymunodd â BBC Wales yn 1997 ar ôl graddio yn y Gymraeg a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Brodor o Drelai yw Jason, a than ei ymddiswyddiad bu'n cyflwyno'r rhaglen BBC Sport ar y teledu.

Gwobr i fardd o Gaerdydd

Cynhaliwyd seremoni wobrwyo Llyfr y Flwyddyn 2008 yng Nghaerdydd ar 1 Gorffennaf. Yr enillydd am y llyfr Saesneg gorau oedd y bardd Dannie Abse o Gaerdydd. Aeth y wobwr am y llyfr Cymraeg gorau i Gareth Miles o Bontypridd.

A am ardderchog, B am bendigedig, C am canmoladwy..

Roedd buarth Ysgol Glantaf yn le hapus iawn fore lau Awst 14, bore canlyniadau lefel "A". Roedd y canlyniadau gyda'r gorau erioed.

Llwyddodd 3 ddisgybl i ennill 5 gradd A dau ddisgybl i ennill 4 gradd A. Tipyn o gamp. Enillodd bron i chwarter y flwyddyn 3 gradd A.. Bu i 74% ennill graddau A i C yn eu holl bynciau. Ond mae ymdrechion pawb i'w canmol a dymunwn bob llwyddiant iddyn nhw yn eu dewis gyrfau. A diolch i'w hathrawon hefyd am eu hymdrechion hwythau a'u rhan nid bychan yn y llwyddiant.

Dechre Dathlu!

Cinio anfurfiol yn yr Happy Gathering ar Medi 17. Yn ogystal â bwyd blasus, ceir cwmni melys ac adloniant ysgafn.

Noson o hwyl yng nghwmni hen ffrindiau, i hel atgofion a chloncan. £20 y pen neu beth am drefnu bwrdd o 10?

Gellir archebu tocynnau ar wefan yr ysgol neu drwy ffonio'r ysgol ar ôl Medi 1af. Dewch a joiwch!!

Ysgol Sant Curig, Y Barri

Mae diwedd y flwyddyn wedi cyrraedd unwaith eto ac rydym ni yn Ysgol Sant Curig wedi dathlu yr wythnos olaf drwy gynnal nifer o weithgareddau cyffrous.

Ar y dydd Llun cynhaliwyd Cyngerdd Fawreddog yn yr ysgol. Fe gymerodd pob plentyn ran yn y gyngerdd gan ganu, adrodd a dawnsio.

Yn wreiddiol y bwriad oedd cynnal y gyngerdd tu allan ar gaeau'r ysgol ond oherwydd y tywydd siomedig penderfynwyd ei gynnal yn y neuadd. Er hyn cafwyd diwrnod yw gofio.

Ar y dydd Mawrth cynhaliwyd diwrnod Hawaii yn yr ysgol. Gwisgodd pawb, yn cynnwys y staff, eu dillad haf, a rhoddwyd gwobrau i'r rhai oedd wedi denu sylw'r beirniad gyda'u gwisgoedd trawiadol. Diolch i aelodau o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r diwrnod. Yn ogystal, diolch i Mr Meilir Sion am feirniadu.

Nos Iau oedd noson Prom Blwyddyn 6 i dathlu eu hamser yn ysgol Sant Curig cyn symud ymlaen i Ysgol Bro Morgannwg. Roedd pawb wedi gwneud ymdrech fawr i wneud y noson yn llwyddiant. Da iawn chi, Blwyddyn 6, a phob lwc blwyddyn nesaf.

Owain Gwyndaf Jones



Diwrnod Hawaii

Priodas



"Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Elen (Gillard) ac Owen Lloyd Hughes a briododd ar 28 Mehefin yn De Courcy's, Pentyrch."

Dewch i Draffod y Cyfansoddiadau!

Bob gaeaf bydd nifer o drigolion Caerdydd yn mynd dros Fynydd Caerffili unwaith y mis i ymuno â chyfeillion o Gaerffili a Chwm Rhymni mewn dosbarth (dan nawdd Ganolfan Addysg Gydol Oes Prifysgol Caerdydd) i draffod Cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y cyfarfod cyntaf eleni **nos Fawrth, 23 Medi 2008**, o 7.00 tan 9.00 pm. Mae'r dosbarth yn cyfarfod yn Ysgol Uwchradd Martin Sant, Hillside, Caerffili, a'r tâl yw £57.50 am chwe chyfarfod misol. Arweinir y trafodaethau gan Dr E. Wyn James o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Gellir cysylltu ag ef am ragor o fanylion ar 029-2062-8754. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd, yn Gymry Cymraeg a dysgwyr profiadol, i ymuno yn y trafod brwd!

Amgylchedd y Brifddinas

"Dim ond y safonau amgylcheddol uchaf sy'n ddigon da ar gyfer ein Prifddinas."

Dyna ddywedodd John Hilling, ein Dirprwy Lywydd, yn 1997. Ac mae Cymdeithas Ddinesig Caerdydd (Caerdydd 2000, gynt) wrthi o hyd yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r safonau uchaf o ran cynllunio, pensaernïaeth a'r amgylchedd yn ninas Caerdydd.

Mae'n rhan o'n gwaith hefyd i addysgu'r cyhoedd i werthfawrogi treftadaeth gyfoethog yr ardal ac i sicrhau bod nodweddion sy o ddi-ddordeb hanesyddol neu gyhoeddus yn y ddinas yn cael eu gwarchod a'u datblygu.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cefnogi 'Rhestrau Lleol' sy'n cofnodi adeiladau â nodweddion amgylcheddol o werth cymunedol; yn cefnogi gwobrau dylunio lleol, ac yn monitro datblygiadau yng Nghaerdydd, gan gynnwys mentrau trafniadaeth.

Rydym hefyd yn annog y cyhoedd i 'edrych yn graffach' ar y dreftadaeth ar eu steplen drws, yn ystod y tymor Drysau Agored (Dyddiau Agored Treftadaeth) bob mis Medi, gan gydweithredu ag Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru a CADW.

Ymunwch â ni i GADW, i WARCHOD ac i BARATOI AM Y DYFODOL.

'Yr hyn a adeiladwn yw'r hyn ydym ni.' Os hoffech gymryd rhan yn ein gweithgareddau, neu dderbyn gwybodaeth bellach am **Gymdeithas Ddinesig Caerdydd**, cysylltwch â www.cardiffcivicsociety.co.uk neu ffoniwch 029 20371472.





Clwb Cymric ar Lwyfan Rhyngwladol

Unwaith eto'r haf yma, cicio eu sodlau yr oedd chwaraewyr tîm pêl-droed Cymru wrth i brif dimau Ewrop herio ei gilydd mewn pencampwriaeth Ryngwladol. Ond wythnos cyn i rowndiau terfynol Ewro 2008 gychwyn yn y Swistir ac Awstria, bu tîm Clwb Cymric yn cystadlu yn nhwrnament Europeada 2008 (www.europeada2008.net) yn y Swistir – twrnament ar gyfer ieithoedd lleiafrifol Ewrop. Roedd 19 tîm o 12 gwlad wahanol ar draws Ewrop yn cystadlu yn ardal fynyddig Graubünden, Swistir, sydd ar ffin de-ddwyreiniol y wlad.

"Gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg y daeth y gwahoddiad i ni chwarae," eglurodd Capten y tîm cyntaf, Carl Roberts. "Cysylltodd is-gennad y Swistir yng Nghaerdydd efo nhw i ofyn a fasen nhw'n gallu awgrymu tîm o siaradwyr Cymraeg i chwarae yn y gystadleuaeth. Yn lwcus i ni, mae cyn chwaraewr i'r clwb yn gweithio i'r Bwrdd, felly fe roddodd o ein henw ymlaen."

Sefydlwyd Clwb Cymric yn 1969 gyda'r bwriad o hybu'r Gymraeg drwy chwarae pêl-droed, a bellach mae'r clwb yn mwynhau un o'r cyfnodau cryfaf yn ei hanes. Cyfuniad o'r tîm cyntaf a'r ail dîm fu allan yn y Swistir - pob un yn siaradwyr Cymraeg, ac roedd disgwyliadau uchel ar ôl tymor llwyddiannus arall yng nghyngreiriair Brains Caerdydd a'r Cylch. Gorffennodd yr ail dîm ar frig yr Ail Adran, tra bu'n rhaid i'r tîm cyntaf fodloni ar yr ail safle yn yr Uwchgynghair am yr ail flyyddyn yn olynol.

Ar ôl cyraedd y Swistir roedd rhaid mynd i'r seremoni agoriadol lle cyflwynwyd pob tîm yn swyddogol. Roedd si ar led mai tîm cenedlaethol dan-21 Cymru oedd Clwb Cymric! Roedd y wasg yn dangos diddordeb brwd yn yr unig dîm pêl-droed Prydeinig oedd yn cystadlu yn Ewrop yr haf hwn. Ond, yn anffodus, methiant fu'r ymdrechion glew ar y maes, ac aethon ni ddim drwodd i'r rownd derfynol.

Yn ogystal â'r pêl-droed, roedd elfen ddiwylliannol gref yn cyd-fynd â'r



Ysgol Coed y Gof

Cystadleuwyr yr Ysgol yn Cael Diwrnod i'r Brenin

Ar Orffennaf y 15ed aeth Mr Hayes, Mrs Dixon a Miss Emlyn a'r plant oedd wedi bod yn canu ym mhartion a chôr yr ysgol ar wibdaith arbennig iawn. I ddweud diolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled a diflino yn cynrychiolu'r ysgol mewn amryw o gyngherddau, yn ogystal â chystadlu yn eisteddfod yr Urdd aethon nhw i Fae Caerdydd i gael tro yn y cychod cyflym. Roedd pawb wrth eu boddau gyda'r wefr o rasio o gwmpas y bae a mwynhau'r olygfa fendigedig. Ar ôl hufen iâ i gloi'r wibdaith, roedd pawb yn awyddus iawn i ailadrodd 'y trip gorau erioed' eto y flyyddyn nesaf.

Ymdeoliad Mrs Williams

Roedd diwedd y tymor yn un trist a hanesyddol i ni yng Nghoed y Gof gyda Mrs Beryl Williams, athrawes y Ganolfan Adnoddau Arbennig, yn ymdeol. Symudodd Mrs Williams i'r

ysgol o Ysgol Gymraeg Bryntaf gyda'r prifathro, Mr Tom Evans, pan gafodd ei sefydlu ym 1981. Mrs Williams oedd yr aelod olaf o'r ysgol wreiddiol i ymddeol.

I ddathlu'r cam pwysig yma yn hanes yr ysgol roedd yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn talu teyrnged briodol, deilwng o'i gwaith gwerthfawr yn yr ysgol. Cafodd ginio ffarwel a gwibdaith grand i Cheltenham gyda'r staff presennol, tē bara brith gyda disgyblion presennol a chyn-ddisgyblion y ganolfan, eu teuluoedd a nifer o gydweithwyr Mrs Williams ar hyd y blynyddoedd, gwasanaeth arbennig gyda'r ysgol gyfan a pharti yn y dosbarth! Hoffem ddiolch yn fawr iddi am ei chyfraniad hollbwysig i Ysgol Coed y Gof a dymuno pob dymuniad da iddi am ymdeoliad hapus yn y gobaiith mawr na fydd yn cadw'n ddieithr.

Rhiannon Dixon

Annwyl Olygydd

Roeddwn i wedi mwynhau 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' o gapeli'r Tabernacl a Salem (Canton - nid Treganna - fel cyn frodor o'r ardal!) ond roedd un neu ddau beth yn fy mhoeni ac yn fy nhristâu, i ddweud y gwir.

Yn gyntaf, o'r holl bobl sydd yn mynychu'r capeli hyn ac sydd wedi symud i Gaerdydd o'r Gogledd neu'r Gorllewin - faint ohonynt sydd yn dod o stad o dai cyngor? Paham taw dim ond pobl o'r dosbarth canol sydd yn 'ffitio mewn' i'r gymuned gapelaidd hyn ac sydd, yn wir, yn rhan o'r gymuned Gymraeg yng Nghaerdydd? (Mae'r gymuned Gymraeg yma ar hyn o bryd yn ardal Pontcanna (Canton i'r brodorion o Gaerdydd) ond mae wedi bod mewn sawl ardal o Gaerdydd dros y blynyddoedd.)

Hefyd, fel y cofiaf, dydy pobl SYDD yn dod o stad o dai cyngor ddim yn cael llawer o groeso gan y gymuned ddwâd Cymraeg dosbarth canol hyn.

Dyna i chi beth mawr! Pobl sydd yn frodorion o Gaerdydd ond ddim yn aelodau o'r 'dosbarth canol' yn cael eu trin fel 'second class citizens' yn eu dinas eu hun - gan fewnfudwyr!

Ydych chi'n ddigon dewr i brintio'r nodyn bach yma yn eich papur, neu a fydd e'n ypsetio'r rhan helaeth o'ch darllenwyr - sef y crachach sydd wedi llwyr anghofio eu cyndeidiau gwerinol?

Lisa Jones
Pontypridd (erbyn hyn)

gystadleuaeth. A hithau'n ardal o dair iaith swyddogol (Almaeneg, Rhetaidd ac Eidaleg), mae gan Graubünden ddiwylliant amrywiol a hanes cyfoethog. Roedd diwrnod o orffwys ar y dydd Mercher gyda phob tîm yn perfformio rhywbeth traddodiadol o'u hardal. Roedd hi'n dipyn o olygfa gwyllo'r gynulleidfa ar y llethrau sgïo yn mwynhau perfformiad o Calon Lân, Brest-pen-coed a Hen Wlad Fy Nhadau i gloi.

Erbyn hyn mae Clwb Cymric yn paratoi ar gyfer dechrau'r tymor pêl-droed newydd - er bod ein cae o dan faes yr Eisteddfod! Bydd y gemau cartref y tymor nesaf, felly, yn cael eu chwarae (dros dro) yn Nhrelái tan i'r Cyngor orffen gwaith adnewyddu caeau Pontcanna. Bydd rhestr o holl gemau, canlyniadau, nosweithiau hyfforddi a hanes Clwb Cymric yn ymddangos yn rheolaidd yn y Dinesydd.

Bydd Clwb Cymric yn dathlu pedwar deg mlynedd ar ddiwedd y tymor ac mae'r paratodau yn dechrau ar gyfer dathliad mawr. Mae'r clwb yn annog cyn chwaraewyr i gysylltu er mwyn gallu eu gwahodd i'r dathliadau, a'r gobaiith yw cael cynrychiolaeth ac anercaid o bob degawd yn hanes y clwb. Os oes gyda chi ddiddordeb yn y dathliadau neu os hoffech chi chwarae i un o'r timau, neu helpu'r clwb mewn rhyw fodd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Rhys Meilir Davies,

rhysmeilir@hotmail.co.uk, ffôn 07775 992 673.

Tymor prysur yn Ysgol Mynydd Bychan

Llongyfarchiadau mawr i bedair o ferched Blwyddyn 6 a enillodd y "Digital Media Award", am greu ffilm animeiddio fer yn dwyn y teitl 'Lawr â'r ffôn'. Yn ogystal â'r anrhydedd a ddaw gyda'r teitl, enillodd Megan Bebb, Ffion Hopkins, Montanna Deacon ac Amy Rees gamera 'Digi-Blue' i'r ysgol.

Llwyddiant arall i'r ysgol fu ennill y "Bronze Arts Mark", yn dilyn gwaith prosiect gyda Blwyddyn 3 a fu'n canolbwyntio ar waith celf, cyfansoddi barddoniaeth, cerddoriaeth a chanu. Braff yw cael cyhoeddi mai ni yw'r ysgol Gymraeg gyntaf i ennill y wobr hon. Anelwn am yr aur tro nesa!!

Cafodd aelodau o gyngor yr ysgol yr anrhydedd o fwynhau tê prynhawn gydag Arglwydd Faer Caerdydd, fel gwerthfawrogiad o'u hymrwymiad i waith y Cyngor Ysgol. Rhoddwyd llyfr am Gaerdydd i bob un o'r swyddogion i gofnodi'r achlysur.

Yn dilyn hynny, trefnodd y cyngor ddiwrnod codi arian er mwyn prynu cwpwrdd tlysau ar gyfer neuadd yr ysgol. Er mwyn codi'r arian, trefnwyd 'Diwrnod Hawaii', ac fe gafodd y plant gyfle i wisgo dillad Hawaiian, a threfnodd blant Blwyddyn 6 weithgareddau amrywiol ar yr iard.

Bu'r Ffair Haf yn llwyddiant ysgubol eto eleni. Yn ogystal â gwaith Menter a Busnes Blwyddyn 6, dangosodd y Dosbarth Derbyn eu sgiliau masnachu trwy werthu llysiau y buont yn eu tyfu ar randir yr ysgol. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo a chyfrannu, yn enwedig y Gymdeithas Rieni ac Athrawon am eu gwaith caled a threfnu arbennig.

Ar ddydd Mawrth yr Eisteddfod, cafodd plant Blwyddyn 5 y fraint o ddarllen darnau o farddoniaeth yn y Babell Lên. Ysgrifennwyd rhain gyda chymorth a chefnogaeth Caryl Parri Jones a hyfryd oedd gweld ffrwyth eu llafur yn cael derbyniad mor dda ar lwyfan Eisteddfod.

Rhaid ffarwelio, yn anffodus, â nifer o aelodau'r staff eleni. Bu Mrs June Parry-Jones yn gweithio'n ddiwyd fel SENCO yr ysgol ers wyth mlynedd bellach ac mae'n anodd credu fod amser ymdeol wedi dyfod mor sydyn. Dymunwn yn dda iddi wrth iddi fwynhau ei hymddeoliad gyda'i theulu.

Dwy athrawes arall sy'n ein gadael eleni yw Miss Bethan Eyres a Mrs Rhian Williams. Dymunwn yn dda i'r ddwy ohonynt, wrth i Miss Eyres ddychwelyd

Ysgol Pencae

Gweithio mewn partneriaeth gyda Somerfield

Hyrwyddwyd agoriad swyddogol siop newydd Somerfield, Llandaf, trwy brynu cynhwysion ar gyfer diwrnod coginio yn y dosbarth. Daeth cynrychiolwyr o'r siop i flasur pryd blasus. Braff gweld pob arwydd yn ddwyieithog a nifer o'r staff yn siarad Cymraeg.

Clwb Ffilm

Croesawyd Jane Hutt, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu gydol Oes a Sgiliau, i'r ysgol i lansio Clwb Ffilm a gynhelir yn yr ysgol yn wythnosol. Nod y clwb yw datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd gan ddefnyddio amrywiaeth o ffilmiau fel sbardun.



Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch

Diolch i'r disgyblion, rhieni a staff yr ysgol am eu cefnogaeth i'r cyngerdd Tri10, perfformiad y Babanod yn y Babell Lên ac i'r côr am berfformio yn ystod seremoni Daniel Owen.

i'r coleg i astudio ar gyfer cymhwyster seicolegydd addysg, ac i Mrs Williams wrth iddi gychwyn ar ei rôl fel Arweinydd yr Adran Iau yn Ysgol Glan Morfa.

Hefyd yn ymadael â ni fydd Miss Llinos Williams a Miss Helen Roberts, dwy a fu'n weithgar a chydwybodol iawn wrth lenwi cyfnodau mamolaeth a secondiad. Pob lwc i'r ddwy ohonoch yn y dyfodol.

Yr olaf o'n plith i ymadael fydd Mrs Rebecca Gibbs, cynorthwydd addysgu dosbarth. Tra'n gweithio gyda ni yn Ysgol Mynydd Bychan, fe'i hargyhoeddwyd taw addysgu oedd ei chyfeiriad cywir a dymunwn bob llwyddiant iddi wrth gychwyn ar gwrs TAR.

Diolch i'r chwech ohonynt am eu holl waith caled a'u hymroddiad diflino tuag at addysg plant Ysgol Mynydd Bychan.

Marc Jon Williams



Darllenodd disgyblion Blwyddyn 6 eu barddoniaeth yn y Babell Lên gyda Caryl Parry-Jones fel rhan o weithdy barddoniaeth yr Eisteddfod.

Arddangoswyd gwaith celf disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ym mhabell UWIC yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Roedd y coronau'n werth eu gweld!

Roedd wythnos yr Eisteddfod yn un gofiadwy iawn i bawb!

Yr Orsedd

Llongyfarchiadau i Mrs Gweneth Evans ar gael ei derbyn yn aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch. Roedd yn edrych yn urddasol iawn yn ei gwisg las.

Ymdeoliad hapus

Dymuna disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr Ysgol Pencae ymdeoliad haeddiannol a hapus i Mrs Eleri Jones ar ôl cyfnod o ddwy flynedd ar bymtheg yn yr ysgol.

Penodiadau newydd

Yn sgil ymdeoliad Mrs Jones, penodwyd y Dirprwy, Mr Richard Thomas, yn Bennaeth a dyrchafwyd Mrs Lisa Mead, oedd ar y staff, i fod yn Ddirprwy. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu swyddi newydd.

Caeau Pontcanna yn ysbrydoli barddoniaeth

Mae plant o bedair o ysgolion cynradd yng Nghaerdydd wedi ysgrifennu barddoniaeth yn seiliedig ar ryfeddodau naturiol Caeau Pontcanna, Caerdydd.

Cafodd y cerddi yma eu harddangos a'u hadrodd mewn achlysur arbennig yn y Babell Lên ddydd Mawrth yr Eisteddfod.

Disgyblion rhwng naw ac un ar ddeg mlwydd oed yw'r beirdd dan sylw, ac maen nhw wedi bod yn gweithio efo Carol Parry Jones, bardd plant Cymru, i geisio cyfleu gwahanol agweddau ar gynefinoedd a bywyd gwyllt y caeau, sydd yn union wrth ymyl canol dinas Caerdydd.

Y Cyngor Cefn Gwlad a noddodd y prosiect, mewn partneriaeth â'r Eisteddfod Genedlaethol.

YSGOL PLASMAWR

Plasmawr ar y Maes

Cymerodd Ysgol Gyfun Plasmawr ran flaenllaw yn y sioe fawreddog a agorodd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, y cyngerdd Tri10. Noson i ddathlu llwyddiant addysg Gymraeg yn y ddinas yn ogystal â dengmlwyddiant Plasmawr. Cafodd disgyblion presennol a chyn ddisgyblion gyfle i gymryd rhan. Bu canmol mawr hefyd ar gyfraniad disgyblion Plasmawr at oedfa'r bore Sul yn y Pafiliwn. Yn y llun, gwelir y parti bechgyn yn canu. Yn ystod yr wythnos, perfformiwyd rhan o'r sioe gerdd Joseff yn y Babell Lân, a Jiwidas yn Theatr y Maes. Hefyd bu grŵp bychan o ddisgyblion yn annerch cynulleidfâ ym Mhabell y Cymdeithasau ar y dydd Mawrth. Yn ogystal â hyn oll, cynhaliwyd wythnos o weithgareddau difyr ym mhabell yr ysgol ar y maes – cerddoriaeth byw bob dydd a man cyfarfod gwych i ddisgyblion y presennol a'r gorffennol, staff, rhieni a chyfeillion yr ysgol.

Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu drwy gydol yr wythnos, a rhai ohonynt yn dod i'r brig yn y babell binc. Cafodd Ffion Rhisiart laf ar y delyn yng Nghystadleuaeth Goffa John Weston Thomas; 2ail i Jâms Powys ar y gystadleuaeth llefaru unigol 12 – 16 oed; a daeth Geraint Herbert yn 3ydd yn yr unawd piano 16 – 19 oed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i dri o athrawon Plasmawr a briododd yn ystod gwyliau'r Haf: Catrin Jones, Lowri Jones a Seimon Edwards. Pob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol!

Staff Newydd

Yn dyst o dwf yr ysgol, byddwn yn croesawu llu o athrawon newydd atom ym mis Medi: Ceri Ann Hughes (Adran Saesneg); Hefin Dumbrill (Technoleg); Anwen Smyth (Arweinydd Gwyddoniaeth); Trystan Williams (Athro y Gymraeg); Fflur Rowlands (Athrawes y Gymraeg); Richard White (Arweinydd galwedigaethol); Donna Williams (Adran Ddrama); Ruth Davies (Adran Anghenion Arbennig); Elena Rhisiart (Swyddog Adnoddau dynol); Elen Hughes (swyddog gweinyddol).

Ffarwelio â staff

Wrth i dymor yr haf dynnu at ei derfyn roedd pawb yn edrych ymlaen at y gwyliau a'r Eisteddfod, ond trist iawn fu ffarwelio â nifer o aelodau o staff yr ysgol – rhai ohonynt wedi bod yno ers y cychwyn. Pob hwyl i Mr Wyn Jones yn ei swydd newydd yn Ysgol Gymraeg Bryntawe. Dymuniadau



Lluniau Llwyfan

gorau i Mrs Ffion Furci wrth iddi gychwyn ei swydd fel pennaeth yr Adran Gymraeg yn yr ysgol gyfun Gymraeg newydd ym Maesteg. Ffarweliwyd hefyd â Mr Andrew Grabham, Miss Catrin Evans, a Miss Siwan Lloyd, y tri ohonynt yn parhau gyda'u gyrfa yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Un arall o staff gwreiddiol yr ysgol a adawodd oedd Mrs Joyce Williams, dymuniadau gorau iddi yn ei hymddeoliad. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu cyfraniad gwerthfawr a brwdfrydedd diddiwedd.

'Straeon o'r Ddinas'

Hunaniaeth, atgofion, breuddwydion a throeon trwstan fu'r themâu dan sylw wrth i 35 o ddisgyblion blwyddyn 8 fwrw ati i greu ffilmiau a elwir yn 'straeon digidol'. Gweithiodd y grŵp yn ddyfal am 5 diwrnod cyfan ar ddiwedd tymor yr haf i greu y ffilmiau personol, a hynny dan arweiniad yr artist Ffion Rees a mudiad Ffotogallery. Yn ogystal â chreu darnau o waith celf unigryw, roedd yn gyfle arbennig i ddysgu sut i defnyddio offer sain a ffilmio, a rhaglenni cyfrifiadurol proffesiynol i greu a golygu gwaith. Roedd y prosiect hwn yn brosiect mawr gyda nifer o ysgolion cynradd hefyd yn gweithio'n ddyfal i greu eu 'straeon digidol' eu hunain.

Glanllyn

Ar y chweched o Orffennaf, aeth 60 o ddisgyblion blwyddyn 8 i fwynhau pedwar diwrnod yng ngwersyll yr Urdd Glanllyn. Dyma ychydig o'r hanes gan Mali Rees o flwyddyn 9.

“Wedi codi'n fore ar ddydd Sul a thaith hir i'r Gogledd, roedd pawb yn awchu i gymryd mantais o weithgareddau cyffrous y gwersyll. Canwio ddaeth gyntaf i Arennig, sef fy ngrŵp i. Fe wnaethon ni rwyfo allan i ynys yng nghanol y llyn – roedd hyn yn hwyl, er yn waith caled! Pan gyrhaeddod ni'r ynys, neidiodd pawb allan o'r gwch i edrych o gwmpas, ond o fewn munudau sylweddolais fy mod i yno ar ben fy hun...roedd y gweddill wedi mynd yn ôl i'r cwch a rhwyfo i ffwrdd gan fy ngadael i yno i weiddi am help! Yn ffodus fe ddaethon nhw yn ôl i fy achub neu yno byddwn i o hyd! Fe gwmpodd ambell un i'r llyn seimllyd ac roedd pawb wedi gwlychu rhywfaint. Wedi swper mawr, aethom i'n gwelyau i lenwi ein boliau gyda

losin a siocled melys, cyn cwmpo'n llipa i gysgu yn breuddwydio am y diwrnod nesaf.....

Erbyn dydd Mawrth, roedd pawb yn cwyno bod eu cyhyrau yn brifo a'u dillad yn wlyb ond ni wnaeth neb adael i hyn amharu ar eu hwyl – roedd pawb wedi mwynhau gymaint, nes bod neb eisiau gadael. Yn y bore, aeth fy ngrŵp i hwylio. I gychwyn, fe ddaeth yr athro hwylio gyda ni ar y cwch i ddangos i ni sut i droi'r cwch a beth i wneud. Ar ôl rhoi swydd i bawb, fe aethom ar ben ein hunain. Roedd popeth yn mynd yn anghywir, ond roedd pawb yn chwethin ac yn mwynhau'r profiad. Fe ddaethom i'r lan yn hollol sych... llwyddiant!.....

Cafwyd taith dawel a chysglyd yn ôl i Gaerdydd a phawb yn edrych ymlaen at weld eu teuluoedd ac adrodd hanes ein tridiau hwylus yng Nglanllyn. Diolch yn fawr i Miss Morgan, Miss Furci a Miss Dafydd am drefnu'r daith ac am roi fyny eu hamser eu hunain i roi cyfle a phrofiad bythgofiadwy i ni'r disgyblion.”

Elinor Davies

Cymorth Cancer Macmillan

Ymunwch yn yr hwyl gyda ffrindiau/teulu/cydweithwyr/ysgol ar ddydd Gwener 26 Medi, 2008 drwy gymryd rhan ym More Coffi Mwya'r Byd Cymorth Cancer Macmillan.

Y llynedd, daeth dwy filiwn o bobl at ei gilydd a chodwyd swm anhygoel o £7.6 miliwn. Defnyddiodd Macmillan yr arian hwn i roi cymorth mawr ei angen i bobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser.

Rydym yn annog pawb i gynnal eu bore coffi eu hunain. Does dim ots faint rydych chi'n ei godi oherwydd caiff pob ceiniog ei defnyddio i wella bywydau pobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser. Felly ymunwch gyda ni a gwnewch i'ch coffi gyfri!

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chynnal bore coffi plis ffoniwch Cymorth Cancer Macmillan ar 01792 540079 neu e.bost south&westwales@macmillan.org.uk Gallwch anfon cyfraniadau at Cymorth Cancer Macmillan, Swyddfa Codi Arian, Ysbyty Gorseinon, Heol Brynawel, Gorseinon, Abertawe, SA4 4UU

Meithrinfa Si-Iwli



Dydd Sadwrn 21ain o Orffenhaf, bu plant Meithrinfa Si-Iwli yn cael llawer o hwyl ym mharc y Llyfrgell, Eglwys Newydd, yn cymryd rhan mewn Pedal Push noddedig i gasglu arian ar gyfer yr NSPCC a Childline Cymru. Mae plant sydd yn cymryd rhan yn y Pedal Push yn dewis faint o weithiau i amgylchu y parc ac mae'r teuluoedd a'u ffrindiau yn eu noddi.

Mae Si-Iwli yn dewis elusen i'w chynorthwyo bob blwyddyn ac, fel disgwylir, mae'r NSPCC yn elusen bwysig ac agos at galon pawb. Hoffwn ddiolch i'r rhieni am ein helpu i gyrraedd cyfanswm o £500, a diolch i'r plant am ddod i ymuno yn yr hwyl!

Cysylltu Eisteddfod Caerdydd ac Eisteddfod Trelew

Ym Maes D, Pabell y Dysgwr, yng nghanol Maes yr Eisteddfod roedd arddangosfa o'r enw "Beth yw 8,000 o filltiroedd rhwng ieithoedd?" Roedd siaradwyr Cymraeg o'r Wladfa a dysgwyr Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro, wedi mynd ati gasglu lluniau a phytiau o wybodaeth am eu hardaloedd, gan greu arddangosfa hynod ddiddorol. Erbyn hyn mae'r arddangosfa i'w gweld yn Eisteddfod Trelew (y



Clwb Rygbi Cymry Caerdydd



Dathlodd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd ei ben-blwydd yn 40 y tymor diwethaf. Mi ddechreuodd y Clwb yn 1967 wrth i aelodau tîm Aelwyd yr Urdd Caerdydd greu tîm newydd sbon. I ddathlu'r achlysur yma fe gynhaliwyd cinio mawreddog yng ngwesty'r Hilton ym mis Mai, gan wahodd gymaint o gyn-chwaraewyr â phosib.

Roedd y noson yn llwyddiant ysgubol gyda 160 o gyn-chwaraewyr yno, rhai o'r tîm gwreiddiol a rhywun yn cynrychioli pob blwyddyn yn hanes y clwb. Roedd rhai yn gweld ei gilydd am y tro cyntaf mewn 30 mlynedd ac eraill yn cwrdd am y tro cyntaf erioed.

Ac wrth i'r noswaith fynd yn ei blaen, mi ddaeth un peth yn amlwg – nid yw'r clwb wedi newid dim mewn 40 mlynedd! Dim cartref parhaol, nid y clwb sydd berchen y cae, dim lleoliad na golau ar gyfer ymarfer – dyna oedd cynnwys y sgysiau o amgylch yr ystafell! Yr un problemau sy wedi bodoli o'r 70au i'r presennol. Ac er bod y noson yn un fythgofiadwy, gwir nod y noson oedd datrys y problemau yma unwaith ac am byth.

Nawr yw'r amser i newid, ond i wneud hynny rhaid codi ymwybyddiaeth – ond yn fwy na hynny, codi arian!! Mae "direct debit" aelodau'r clwb ac ambell noddwr brwd, fel Pentan, Y Mochyn Du, Westpoint, Design & Signs a Hugh James yn cadw'r clwb ar ei draed.

Nod y clwb yn y tymor byr yw codi arian er mwyn prynu golau symudol. Codwyd dros fil a hanner o bunnoedd yn

Gaiman), ac yna bydd yn mynd ymlaen i Drevelin ac i Esquel yn ardal yr Andes (Chubut).

Ar y dydd Mercher yn yr Eisteddfod daeth pedwar aelod o gwrs haf Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro sy'n dod o Drevelin, i Faes D i siarad gyda'u teuluoedd dros y we.

Roedd Gill Stephens, sef tiwtor yn Ysgol Gymraeg yr Andes, wedi trefnu parti bach yn yr ysgol fel bod pawb yn gallu dod at ei gilydd a siarad â ni yn yr Eisteddfod dros y we. Roedd e'n llwyddiant mawr gyda phobl o'r ddwy wlad yn cael clonc go hir gyda'i gilydd dros 'Skype'.

Gwenllian Willis

yr ocsiwn a chafwyd cymorth Hybu Rygbi S4/C wrth drefnu gwobrau. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo ac yn cyfrannu, i'n noddwyr i gyd a S4/C. Roedd hi yn noson wych.

Ymlaen Clwb Rygbi Cymry Caerdydd. Os am fwy o wybodaeth am y Clwb ewch i www.clwbrygbi.com

Prif Hyfforddwr Newydd i'r Clwb Rygbi

Ma Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn falch iawn o gyhoeddi taw Keri P Evans fydd hyfforddwr newydd y clwb am y tymor nesaf. Mae Keri yn athro Ymarfer Corff yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac mi fuodd yn ddyfarnwr yn yr Uwch Gynghrair am nifer o flynyddoedd. Yr is-hyfforddwyr fydd Gareth Williams ac Emyr Thomas.

Er i 'Clwb Rygbi' orffen yn uwch nag unrhyw dîm arall o'r Brifddinas yn y 6ed adran, gobaith Keri a'r tîm am y tymor newydd yw ennill dyrchafiad. Gallai hyn brofi'n anodd o ystyried safon y timoedd eraill yn y gynghrair a'r ffaith taw dim ond un tîm fydd yn esgyn - o leia dyna'r si o barthau URC.

Cynhelir ymarferion bob nos Fercher am 18.30 ar gaeau UWIC, Campws Llandaf, ar Rodfa'r Gorllewin. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Rhys Jones. clwbrygbi@hotmail.com neu ewch i www.clwbrygbi.com

Hunaniaeth y Cymoedd

Mae Robert Lewis o Gaerdydd wrthi'n casglu deunydd ar gyfer ei draethawd PhD ym Mhrifysgol Morgannwg – a hynny ar destun hynod ddiddorol, sef 'Wenglish fel cyfrwng ar gyfer ymadrodd a pherfformio'.

Yn ddiweddar fe gyhoeddodd e lyfr newydd ar *Wenglish* – arolwg o dafodiaith Saesneg y cymoedd, sy'n arddangos dylanwad cryf y Gymraeg - o ran geirfa a chystrawen.

Roedd dwy brif ysbrydoliaeth i'r llyfr: gwaith Arthur Baur ar Almaeneg y Swisdir, a gwaith arloesol John Edwards, *Talk Tidy*, yn yr 80au. (Mae John Edwards ei hunan wedi bod yn gefnogol iawn i lyfr newydd Robert Lewis.)

Calendr y Dinesydd

Mawrth, 9 Medi

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y DINESYDD yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina, am 7.00pm.

Mercher, 10 Medi

Cymdeithas Tŷ'r Cymry. Trafod Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yng nghwmni Eleri Rogers, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.30pm.

Iau, 11 Medi

Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd. 'Deall Byd y Carcharor.' Arweinydd: Dafydd Parri. Yng nghapel Ebeneser, Heol Siarl, am 7.30pm.

Gwener-Sadwrn, 12-13 Medi

Theatr Genedlaethol Ieuencid Cymru yn cyflwyno'r cynhyrchiad dwyieithog, 'Mythau Mawreddog y Mabinogi' (Manon Eames), yn Theatr Sherman am 1.00pm a 7.00pm ar y dydd Gwener ac am 2.30pm a 7.30pm ar y dydd Sadwrn. Tocynnau: 029-2064-6900.

Llun, 15 Medi

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Malt Anderson yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Sadwrn, 20 Medi

Bore coffi i ddysgwyr yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr E. Wyn James am rai o emynau Williams Pantycelyn am 11.00am. Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Mawrth, 23 Medi

Noson agoriadol dosbarth nos misol (6 chyfarfod) sy'n trafod cynnyrch llenyddol Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yn Ysgol Uwchradd Martin Sant, Hillside, Caerffili, am 7.00pm. Manylion pellach gan y tiwtor, Dr E. Wyn James (029-2062-8754;

JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mae nifer o aelodau'r dosbarth yn dod o Gaerdydd – croeso i ragor!

Iau, 25 Medi

Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Llyfr Bach y Plant' (Angharad Tomos) yng Nghanolfan Glan yr Afon ('The Riverfront'), Casnewydd, am 10.30am a 1.30pm. Tocynnau: 01633-656757.

Gwener, 26 Medi

Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Islwyn Ffowc Elis: Ciplwng ar

ei Yrfa.' Sgwrs gan Rheinallt Llwyd (Aberystwyth), yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm.

Cydnabyddir nawdd yr Academi. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Gwener, 3 Hydref

Cymrodorion Caerdydd. Noson y Llywydd, Mr Gwyn Briwnant Jones, yn festri Eglwys y Crwys am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Gwener, 3 Hydref

Cylch Cadwgan. Parch. Huw Jones ac Arfon Gwilym yn cyflwyno 'Stori Hwiangerddi' yn Acapela, Capel Horeb, Pen-tyrch am 7.30pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

Mercher, 8 Hydref

Cymdeithas y Beibl. Gwasanaeth, Ffair a Noson Goffi yn Eglwys Dewi Sant, am 7.00pm.

Mercher, 8 Hydref

Cymdeithas Tŷ'r Cymry. Cylch Darllen: Trafodaeth ar Jackie Jones (Stori Sydyn Caryl Lewis), yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.30pm.

Mercher-Sadwrn, 8-11 Hydref

Gŵyl Llên y Lli: 'Deffro'r Dychymyg'. Bydd nifer o gyflwyniadau a pherfformiadau Gymraeg a dwyieithog yn yr ŵyl lenyddol hon a drefnir gan yr Academi ym Mae Caerdydd. Ymhlith y llenorion Cymraeg bydd Joanna Davies, Eurig Salisbury, Ceri Elen, Huw Foulkes, Catrin Dafydd, Rhys Iorwerth a Mererid Hopwood. Manylion pellach: 029-2047-2266; www.academi.org.

Gwener, 17 Hydref

Cylch Llyfryddol Caerdydd. Darlith yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm.

Sadwrn, 18 Hydref

Bore coffi i ddysgwyr yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan John Emyr am John Bunyan a'i lyfr dylanwadol, Taith y Pererin, am 11.00am. Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Llun, 20 Hydref

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni'r Athro Glyn O. Phillips yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost:

JamesEW@caerdydd.ac.uk

Cwrs Alpha Caerdydd ar S4C

Gan eu bod yn sylweddoli'r argraff enfawr mae'r cwrs Alpha yn ei gael ar y ffydd Gristnogol - mae 35000 o gyrsiau yn cael eu rhedeg ledled y byd - daeth 'Dechrau Canu' i gartref Sian Llewelyn a'i gŵr Andrew yng Nghaerdydd er mwyn ffilmio braslyn o gynnwys noson Alpha.

Mae'r cwrs 10 wythnos yn rhagarweiniad i'r ffydd Gristnogol, ac yn cyfarfod unwaith yr wythnos mewn cartref o dan amgylchiadau hollol anffurfiol dros banded a chacen. Ceir cyfle i drafod a mynegi barn ar agweddau o'r gred Gristnogol. Nid syndod, felly, bod y cwrs yn apelio at bob oedran, enwad a chredo - yn gweddu i gapelwyr selog a rhai sydd erioed wedi mynychu capel.

Bydd yr eitem i'w gweld ar S4C yn yr Hydref ac mae'n cynnwys cyfweiliadau gyda rhai sydd eisoes wedi cwblhau'r cwrs.

Fe fydd Sian ac Andrew yn rhedeg Cwrs Alpha Caerdydd o'u cartref yn y Mynydd Bychan ddiwedd mis Medi. Am fanylion pellach am y cwrs - sydd yn rhad ac am ddim - ffoniwch 20757786 neu e-bost sianl28@aol.com

EISTEDDFOD Y CYMOEDD
Nos Wener, Hydref 17eg 2008,
5 tan 10 o'r gloch, yn
Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach.
 Am fanylion pellach cysylltwch ag
 Iola Llwyd 07891177983
 20 George St, Ystrad Mynach



Ffenestri, drysau a tai gwydr o ansawdd

- > Stiwdio ddylunio newydd yn Nhre-loan, Caerfyrddin - 5 ystafell haul i'w gweld
- > Marciau barcod newydd ar bob ffenestr a drws
- > Gwydr newydd sydd yn glanhau ei hun ac yn thermol effeithiol
- > Gwefan Gymraeg newydd
 - Gwarant deg mlynedd heb ddadl
 - Dim costau cudd, dim blaendâl
 - Dyfynbris am ddim heb ymrwymiad
 - Awdurdodwyd yn llwyr gan Secured by Design

Fel y gwelwyd ar y teledu **itv S4C**

NOLAN UPVC
 Prif Swyddfa: 1 St Ivel, Heol Llansteffan, Tre-loan, Caerfyrddin, SA31 3BP
 Ystafell Arddangos Caerdydd: Y Rhath, Caerdydd.
 E-bost: info@nolanupvc.co.uk

Ffôn: 0845 600 90 80 www.nolanupvc.co.uk